

# CRONFA BENSIWN RHONDDA CYNON TAF

## DATGANIAD STRATEGAETH ARIANNU

Chwefror 2023



# Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf

## Datganiad Strategaeth Ariannu

### ADRAN 1: Cyflwyniad

#### Trosolwg

Mae'r Datganiad yma wedi cael ei baratoi yn unol â Rheoliad 58 o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 (Diwygio) (y Rheoliadau CPLIL). Mae'r Datganiad yn disgrifio strategaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, ac yntau'n Awdurdod Gweinyddu (yr Awdurdod Gweinyddu) ar gyfer ariannu Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf (y Gronfa).

Fel sy'n ofynnol o dan Reoliad Gweinyddu 58(3), mae'r Datganiad wedi cael ei adolygu (a'i ddiwygio lle bo'n briodol) er mwyn cymryd i ystyriaeth y canllawiau a gafodd eu cyhoeddi gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ym mis Medi 2016 yn ogystal â'r canllawiau statudol ategol wedi'u cyhoeddi gan Y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol: Canllawiau ar Baratoi a Chynnal Polisiâu wrth Adolygu Cyfraniadau Cyflogwyr, Taliadau Ymadael Cyflogwyr a Chytundebau Gohirio Dyled.

#### Ymgynghoriad

Yn unol â Rheoliad 58(3), ymgynghorwyd â swyddogion, aelodau etholedig a chynrychiolwyr yr holl gyflogwyr sy'n rhan o Gronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf ynglŷn â chynnwys y Datganiad yma ac mae eu sylwadau wedi cael eu hystyried wrth lunio'r Datganiad. Serch hynny, mae'r Datganiad yn disgrifio strategaeth sengl ar gyfer y Gronfa gyfan.

Yn ogystal â hynny, mae'r Awdurdod Gweinyddu wedi ystyried Datganiad Strategaeth Buddsoddi'r Gronfa a gyhoeddwyd o dan Reoliad 7 o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2016 (y Rheoliadau Buddsoddi) a Chanllawiau Bwrdd Ymgynghori'r Cynllun ynghylch Amodau Hyblyg i Weithwyr.

Ymgynghorwyd hefyd ag Actiwari'r Gronfa, sef Aon Solutions UK Ltd, ynghylch cynnwys y Datganiad yma.

#### Pwrrpas y Polisi

Pwrrpas y Datganiad Strategaeth Ariannu yma yw dogfennu'r broses sy'n vael ei defnyddio gan yr Awdurdod Gweinyddu i gynnal y gwaith canlynol:

- sefydlu strategaeth glir a thryloyw sy'n benodol i'r Gronfa, a fydd yn nodi'r modd o fodloni cyfrifoldebau ariannol pensiwn y cyflogwr yn y cyfnod sydd i ddod



- cefnogi'r gofyniad rheoliadol mewn perthynas â dymunoldeb cynnal prif gyfradd gyfrannu sydd mor gyson â phosibl

- galluogi cadw cyfraniadau cyffredinol y cyflogwyr mor gyson â phosibl ac (os nad yw'r Awdurdod Gweinyddu yn cymryd risgiau diangen ac os sicrhau bod y gofynion rheoliadol yn cael eu bodloni) ar gost resymol i'r trethdalwyr, cyrff cofrestredig, dynodedig a derbyniedig.
- sicrhau bod y gofynion rheoliadol i bennu cyfraniadau yn cael eu bodloni er mwyn sicrhau bod y Gronfa yn ddiddyled ac yn gost-ffeithiol yn yr hirdymor
- cymryd ymagwedd tymor hwy ddoeth tuag at gyllido cyfrifoldebau ariannol y Gronfa.

Er bod rhaid i'r strategaeth ariannu sy'n berthnasol i gyflogwyr unigol neu gategorïau o gyflogwyr gael ei hadlewyrchu yn y Datganiad Strategaeth Ariannu, rhaid nodi y dylai'r ffocws fod ar y camau gweithredu sydd â'r budd mwyaf i'r Gronfa yn yr hirdymor.

### **Cysylltiadau â'r polisi buddsoddi sydd wedi'i nodi yn y Datganiad Strategaeth Ariannu**

Mae'r Awdurdod wedi paratoi'r Datganiad Strategaeth Ariannu yma ar ôl ystyried lefel y risg sy'n gynhenid i'r polisi buddsoddi a nodwyd yn y Datganiad Strategaeth Ariannu a'r polisi ariannu sydd wedi'i nodi yn y Datganiad yma. Mae'r Awdurdod yn derbyn bod angen i ddeilliant ffurfio dyraniad asedau strategol fod yn gyson â chyflawni'r diddyledrwydd a'r targedau adennill diffyg a chwrdd â'r cyfrifoldebau ariannol pan fyddan nhw'n dod yn ddyledus.

Ystyrir bod bondiau llog sefydlog a mynegrifol y Llywodraeth yn darparu enillion wedi'u gwarantu yn effeithlon os cân nhw eu cadw hyd at yr adeg adbrynu (gan dybio na fydd y Llywodraeth yn diffygdalu). Mae dyraniad asedau'r Gronfa fel sydd wedi'i nodi yn y Datganiad Strategaeth Buddsoddi yn buddsoddi cyfran sylweddol o'r Gronfa mewn asedau megis soddgyfrannau. Mae disgwyl i'r rhain roi enillion uwch na bondiau'r Llywodraeth yn yr hirdymor ond does dim modd gwarantu hynny. Mae'r Awdurdod Gweinyddu wedi cytuno gydag Actiwari'r Gronfa y bydd y targed ariannu ar y sail barhaus yn cael ei bennu gan ystyried mewn modd diamwys yr enillion disgwyliedig ar yr asedau.

Mae'r Awdurdod Gweinyddu yn cydnabod nad yw enillion buddsoddi'r dyfodol wedi'u gwarantu ac os na chyflawnir yr enillion disgwyliedig (yn absenoldeb unrhyw effeithiau eraill),

bydd sefyllfa diddyledrwydd y Gronfa yn gwaethygu.

Mae'r strategaeth ariannu yn cydnabod y targedau buddsoddi a'r anwadlwrwydd cynhenid sy'n deillio o'r strategaeth buddsoddi, drwy fod yn seiliedig ar dybiaethau ariannol sy'n cymryd i ystyriaeth enillion cyfartalog disgwyliedig, a thrwy gynnwys mesurau a all

gael eu defnyddio i leihau effaith anwadalrwydd o'r fath.  
Bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn parhau i adolygu'r ddwy



ddogfen i sicrhau bod y proffil risg cyffredinol yn parhau i fod yn briodol, gan gynnwys, lle bo'n briodol, defnyddio ymarfer modelu cyfrifoldebau ariannol neu dechnegau dadansoddi eraill.

## **Adolygiad o'r Datganiad yma**

Ymgwymerodd yr Awdurdod Gweinyddu â'i adolygiad hunanddibynnol o'r Datganiad ym mis Ionawr 2023.

Bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn adolygu'r datganiad yma'n ffurfiol yn rhan o'r prisiad teirblwydd ar 31 Mawrth 2025 oni bai fod amgylchiadau'n codi sy'n gofyn am gamau gweithredu cynharach.

Bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn monitro sefyllfa ariannu'r Gronfa yn fras yn rheolaidd rhwng y prisiadau, ac yn trafod ag Actiwari'r Gronfa a oes unrhyw newidiadau pwysig wedi codi

sy'n gofyn am gymryd camau gweithredu.



## ADRAN 2: Nodau a Phwrrpas y Gronfa

### Pwrrpas y Gronfa

Pwrrpas y Gronfa yw buddsoddi arian mewn perthynas â chyfraniadau, gwerthoedd trosglwyddo ac incwm buddsoddi i gynhyrchu Cronfa i dalu buddion Cynllun dros yr hirdymor ac wrth wneud hynny, llyfnhau'r cyfraniadau sydd eu hangen gan weithwyr dros yr hirdymor.

### Nodau'r Gronfa

Nodau'r Gronfa yw:

- 1. Cydymffurfio â rheoliad 62 Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 ac yn benodol, darparu buddion cronfa digonol i sicrhau diddyledrwydd y Gronfa ac wrth wneud hynny, ystyried dymunoldeb cynnal cyfradd gyfrannu prif gyflogwyr sydd mor gyson â phosibl. Dylai'r Gronfa gyflawni a chynnal diddyledrwydd a bod yn gost-ffeithiol yn yr hirdymor (gan ddibynnu ar yr Awdurdod Gweinyddu yn peidio â chymryd risgiau diangen), a ddylai gael ei asesu yng ngoleuni proffil risg y gronfa ac archwaeth risg yr Awdurdod Gweinyddu a'r cyflogwyr gyda'i gilydd, ar gost resymol i drethdalwyr, cyrff cofrestredig, dynodedig a derbyniedig.**

Mae'r Awdurdod Gweinyddu yn cydnabod y gall y gofyniad i gadw prif gyfraddau cyfrannu'r cyflogwyr mor gyson â phosibl fynd yn groes i'r gofynion canlynol:

- y gofyniad rheoliadol i sicrhau diddyledrwydd ac effeithlonrwydd cost yn yr hirdymor,
- y gofyniad y dylai'r costau fod yn rhesymol, a
- gwneud y defnydd gorau o incwm buddsoddiadau gan gadw o fewn paramedrau cost rhesymol (cyfeirir at hyn yn bellach ymlaen yn y ddogfen)

Mae sicrhau anwadalrwydd lefel isel yng nghyfraddau cyfrannu'r cyflogwyr yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol mewn asedau sy'n cyd-fynd â chyfrifoldebau ariannol y cyflogwr. Yn y cyd-destun yma, mae 'asedau sy'n cyd-fynd' yn golygu rhai sy'n ymddwyn mewn modd tebyg i'r cyfrifoldebau ariannol wrth i'r sefyllfa economig newid. O ran y cyfrifoldebau ariannol sy'n cael eu cynrychioli gan fuddion sy'n daladwy gan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, pe na bai cyflogwyr i gyllido'r cyfrifoldebau ariannol yn y dyfodol, byddai asedau o'r fath yn tueddu cynnwys buddsoddiadau gilt.

Ystyrir mathau eraill o asedau, megis stociau ac eiddo yn rhai sy'n cynnig enillion sydd â chyfraddau hirdymor uwch (ar gyfartaledd), ac yn gyson â'r gofyniad i wneud y defnydd gorau o'r enillion o fuddsoddiadau, mae'r



Awdurdod Gweinyddu yn buddsoddi cyfran sylweddol o'r  
Gronfa mewn asedau o'r fath. Serch hynny, mae mwy o  
risg ynghlwm wrth yr asedau yma,



a gall y risg honno olygu bod yr enillion yn anwadal dros gyfnodau tymor byr.

Gall yr anwadalrwydd tymor byr yma mewn enillion buddsoddiadau olygu bod anwadalrwydd yn sefyllfa ariannu'r Gronfa mewn prisiadau olynol, a bydd hyn yn cael effaith ar gyfraddau cyfrannu'r cyflogwyr. Bydd yr effaith ar gyfraddau cyflogwyr yn cael ei lliniaru drwy ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar risg wrth bennu'r dybiaeth enillion buddsoddiadau; sef system llyfnhau sy'n cydnabod natur statudol y Gronfa a'i chyflogwyr mwyaf.

Mae'r Awdurdod Gweinyddu yn cydnabod bod rhaid dal y ddysgl yn wastad o ran dewis polisi buddsoddi, y systemau llyfnhau sy'n cael eu defnyddio yn y prisiadau, a llyfnder cyfraddau cyfrannu'r cyflogwyr a ddaw yn sgil hynny o un cyfnod prisio i'r un nesaf.

Mae'r Awdurdod Gweinyddu hefyd yn cydnabod bod y sefyllfa, o bosibl, yn fwy anwadal i Gyrff Derbyniedig sydd â chontractau tymor byr lle mae defnyddio systemau llyfnhau yn llai priodol.

## **2. Sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i fodloni'r holl gyfrifoldebau ariannol wrth iddyn nhw ddod yn ddyledus.**

Mae'r Awdurdod Gweinyddu yn cydnabod yr angen i sicrhau bod gan y Gronfa ddigon o asedau rhydd ar bob adeg i allu talu pensiynau, gwerthoedd trosglwyddo, costau, ffioedd a threuliau eraill. Polisi'r Awdurdod Gweinyddu yw defnyddio cyfraniadau cyflogwyr a chyflogeion i dalu costau o'r fath (yn y lle cyntaf) er mwyn osgoi'r gost o ddadfuddsoddi asedau. Mae'r Awdurdod Gweinyddu yn monitro'r sefyllfa bob mis i sicrhau bod modd bodloni'r holl ofynion ariannol.

## **3. Rheoli cyfrifoldebau ariannol y cyflogwyr mewn modd effeithiol.**

Bwriad yr Awdurdod Gweinyddu yw sicrhau bod holl gyfrifoldebau ariannol y cyflogwyr yn cael eu rheoli yn effeithiol. Mewn cyd-destun ariannu, mae hyn yn cael ei gyflawni drwy geisio cyngor gan yr actiwari yn rheolaidd, gan sicrhau bod cyflogwyr, aelodau o'r Pwyllgor a'r Bwrdd yn cael eu hysbysu'n briodol, a thrwy fonitro'r sefyllfa ariannol yn rheolaidd.

## **4. Defnyddio'r incwm o fuddsoddiadau yn y modd gorau o fewn paramedrau risg rhesymol.**

Mae'r Awdurdod Gweinyddu yn cydnabod dymunoldeb defnyddio'r incwm o fuddsoddiadau yn y modd gorau o fewn paramedrau risg rhesymol. Ceisir enillion buddsoddiadau sy'n fwy na'r rheiny sydd ar gael ar stociau'r llywodraeth drwy fuddsoddi mewn mathau eraill o asedau megis stociau ac eiddo. Mae'r



Awdurdod Gweinyddu yn sicrhau bod y paramedrau risg yn rhesymol drwy wneud y canlynol:

- cyfyngu buddsoddiadau i'r canrannau uchaf



sydd wedi'u nodi yn y Datganiad Strategaeth Fuddsoddi.

- cyfyngu'r buddsoddi i fathau o asedau sy'n cael eu cydnabod yn rhai priodol ar gyfer cronfeydd pensiwn y DU.
  - dadansoddi'r risg bosibl sy'n ymwneud â'r mathau hynny o asedau ar y cyd ag Actiwari'r Gronfa, Ymgynghorwyr Buddsoddi, Rheolwyr Cronfa, a Phartneriaeth Pensiwn Cymru.
- 



## ADRAN 3: Cyfrifoldebau'r Cyrff Allweddol

### Cyfrifoldebau'r cyrff allweddol

Y tri chorff y mae eu cyfrifoldebau i'r Gronfa yn arbennig o berthnasol yw'r Awdurdod Gweinyddu, y Cyflogwyr Unigol ac Actiwari'r Gronfa.

Dyma'u cyfrifoldebau allweddol:

### Awdurdod Gweinyddu

Cyfrifoldebau'r Awdurdod Gweinyddu yw:

- 1. Gweithredu'r gronfa bensiwn**
- 2. Casglu cyfraniadau cyflogwyr a chyflogeion, incwm buddsoddi a symiau eraill sy'n ddyledus i'r Gronfa yn unol â'r hyn sydd wedi'i bennu yn y rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a, hyd eithaf gallu'r Awdurdod Gweinyddu, sicrhau bod y cyfraniadau'n cael eu talu mewn modd amserol.**

Rhaid i gyflogwyr unigol dalu cyfraniadau yn unol â Rheoliadau 67-71 o'r Rheoliadau. Bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn sicrhau bod yr holl gyflogwyr yn effro i'r gofynion yma, yn arbennig gofyniad Deddf Pensiynau 1955, sef bod cyfraniadau'r aelodau yn cael eu talu erbyn y 19<sup>eg</sup> o'r mis sy'n dilyn y mis y mae'r aelod yn ei dalu. Mae'n bosibl bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn codi llog ar gyfraniadau hwyr yn unol â Rheoliad 71 o'r Rheoliadau.

Bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn sicrhau bod camau yn cael eu cymryd i adennill asedau gan gyflogwyr sydd wedi gadael y Gronfa fel a ganlyn:

- drwy ofyn i Actiwari'r Gronfa gyfrifo'r diffyg fel y mae ar y dyddiad y mae'r cyflogwr yn gadael
- drwy hysbysu'r cyflogwr bod rhaid iddo wneud iawn am unrhyw ddiffyg sydd wedi'i gyfrifo yn y prisiad gadael.

- 3. Talu'r hawliadau perthnasol o'r Gronfa yn unol ag amodau'r Rheoliadau CPLIL.**
- 4. Buddsoddi'r arian dros ben yn unol â rheoliadau'r CPLIL.**

Bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn cydymffurfio â Rheoliad 7(8) o'r Rheoliadau Buddsoddi.

- 5. Sicrhau bod arian parod ar gael i fodloni'r cyfrifoldebau ariannol wrth iddyn nhw ddod yn ddyledus.**

Mae'r Awdurdod Gweinyddu yn cydnabod y ddyletswydd yma ac yn ei gweithredu yn y modd sydd wedi'i nodi yn Nodau'r Gronfa uchod.

- 6. Rheoli'r broses prisio mewn ymgynghoriad ag**



## **actiwari'r Gronfa**

Mae'r Awdurdod Gweinyddu yn sicrhau ei fod yn cyfathrebu



yn effeithiol gydag Actiwari'r Gronfa er mwyn:

- cytuno ar ba bryd y dylid darparu gwybodaeth a chanlyniadau'r prisiadau
- sicrhau darparu data sydd â lefel addas o gywirdeb
- sicrhau bod Actiwari'r Gronfa yn glir ynglŷn â'r Datganiad Strategaeth Ariannu
- sicrhau bod y cyflogwyr sy'n cymryd rhan yn cael eu hysbysu yn briodol drwy gydol y broses
- sicrhau bod adroddiadau ar gael yn unol â gofynion yr Arweiniad a'r Rheoliadau
- galluogi'r Pwyllgor a'r Bwrdd Pensiynau i adolygu'r broses prisio
- sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu i Adran Actiwari'r Llywodraeth i'w galluogi i gyflawni ei swyddogaethau o dan Adran 13 o Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 ac fel Actiwari Cynllun

**7. Paratoi a chynnal Datganiad Strategaeth Buddsoddi a Datganiad Strategaeth Ariannu ar ôl ymgynghori'n briodol â'r cyrff â buddiant.**

Bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn sicrhau y caiff y ddwy ddogfen eu paratoi a'u cynnal yn y modd gofynnol

**8. Monitro pob agwedd ar gyflawniad a sefyllfa ariannol y Gronfa, a diwygio'r ddwy ddogfen yma yn ôl y gofyn.**

Mae'r Awdurdod Gweinyddu yn monitro cyflawniad buddsoddi a sefyllfa ariannol y Gronfa bob chwarter. Bydd y Datganiad Strategaeth Buddsoddi yn cael ei adolygu bob blwyddyn, a'r Datganiad Strategaeth Ariannu, bob tair blynedd yn rhan o'r cylch prisio, oni bai fod amgylchiadau yn gofyn am ddiwygiad cynharach.

**9. Rheoli unrhyw wrthdaro posibl mewn buddiannau sy'n deillio o'i swyddogaeth ddeuol yn Awdurdod Gweinyddu a Chyflogwr Cynllun.**

**10. Sicrhau defnydd cyson o bolisiau sy'n ymwneud â diwygio cyfraniadau cyflogwyr rhwng prisiadau ffurfiol,**



**cychwyn trefniadau gohirio dyled a rhoi'r taliadau ymadael fesul tipyn a bod y broses o gymhwyso'r polisïau hynny yn glir ac yn dryloyw i bob cyflogwr cronfa.**

---

## **Cyflogwyr Unigol**

Bydd Cyflogwyr Unigol yn gwneud y canlynol:

- Didynnu cyfraniadau o gyflog cyflogeion.
  - Talu pob cyfraniad parhaus, gan gynnwys ei gyfraniad cyflogwr a chyfraniadau sy'n ddyledus yn rhan o Gytundeb Gohirio Dyled yn unol â'r hyn sydd wedi'i bennu gan Actiwari'r Gronfa, a hynny'n brydlon erbyn y dyddiad mae'n ddyledus.
  - Llunio polisi ar opsiynau penodol ac arfer yr opsiynau o fewn y fframwaith rheoliadol.
  - Talu am flynyddoedd ychwanegol yn unol â'r trefniadau cytunedig.
  - Hysbysu'r Awdurdod Gweinyddu yn brydlon o'r holl newidiadau i aelodaeth, neu newidiadau eraill sy'n effeithio ar ariannu yn y dyfodol, gan gynnwys unrhyw achlysuron hysbysadwy yn unol â'r hyn sydd wedi'i nodi yn y Strategaeth Gweinyddu Pensiynau.
  - Talu unrhyw daliadau gadael sy'n ofynnol, pe bai'n peidio â chymryd rhan yn y Gronfa
- 

## **Actiwari'r Gronfa**

Bydd Actiwari'r Gronfa yn gwneud y canlynol:

- paratoi prisiadau gan gynnwys pennu cyfraddau cyfrannu cyflogwyr ar lefel sy'n sicrhau diddyledrwydd ac effeithlonrwydd cost yn yr hirdymor ar ôl cytuno ar dybiaethau gyda'r Awdurdod Gweinyddu a chan dalu sylw i'r Datganiad Strategaeth Ariannu a'r Rheoliadau.
- paratoi cyngor a chyfrifiadau mewn perthynas â throsglwyddiadau swmp ac agweddau ariannu ar faterion unigol sy'n ymwneud â buddion.
- darparu cyngor a phrisiadau pan fydd cyflogwyr cronfa yn gadael.
- darparu cyngor ar gyfer yr Awdurdod Gweinyddu ynglŷn â bondiau a mathau eraill o ddiogelwch yn erbyn yr effaith ar y Gronfa os yw'r Cyflogwr yn diffyg dalu.
- cynorthwyo'r Awdurdod Gweinyddu ynglŷn ag asesu a oes angen i gyfraniadau cyflogwr gael eu hadolygu rhwng prisiadau yn unol â'r hyn sy'n cael ei ganiatáu o dan y rheoliadau neu sy'n ofynnol ganddyn nhw, yn arbennig mewn perthynas ag unrhyw adolygiad o gyfraniadau rhwng prisiadau teirblwydd o dan Reoliadau 64(4) a 64A



- darparu cyngor yn ôl yr angen i gynorthwyo'r Awdurdod Gweinyddu i benderfynu a ddylid rhoi Cytundeb Gohirio Dyled ar waith o dan Reoliad 64(7A) ai peidio neu



dalur arian ymadael fesul tipyn o dan Reoliad 64B

- sicrhau bod yr Awdurdod Gweinyddu yn effro i unrhyw arweiniad proffesiynol neu ofynion proffesiynol eraill, a all fod yn berthnasol i'w swyddogaeth cynghori'r Gronfa.
- 



## ADRAN 4: Targed Ariannu, Diddyledrwydd, Effeithlonrwydd Cost Hirdymor ac Is-gronfeydd Amcanol

### Egwyddor Ariannu

Mae'r Gronfa yn cael ei hariannu ar yr egwyddor ei bod hi'n ceisio darparu digon o arian i dalu 100% o'r buddion sydd wedi'u haddo.

### Targedau a thybiaethau ariannol sy'n ymwneud â strategaeth buddsoddi'r dyfodol

Y targed ariannol yw swm yr asedau y mae angen i'r Gronfa ei ddal ar unrhyw adeg fel bod y swm yma (ynghyd ag unrhyw enillion buddsoddi sy'n cael eu rhagweld, a chan ystyried profiad disgwylidig yr aelodaeth a'r cyfraniadau sy'n ddyledus o'r aelodaeth) yn bodloni'r egwyddor ariannu.

Mae rhai sylwadau ar yr egwyddorion sydd wedi'u defnyddio i bennu'r Targed Ariannu ar gyfer cyrff gwahanol yn y Gronfa wedi'u nodi isod.

#### Cyrff Cofrestredig a chyrff penodol eraill

Bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn cymryd agwedd gyffredinol yn hyn o beth gan dybio y bydd buddsoddi amhenodol mewn ystod eang o asedau sydd â risg uwch nag asedau risg isel ar gyfer Cyrff Cofrestredig a chyrff penodol eraill sy'n cael eu trin (neu a all gael eu trin) fel pe baen nhw'n hirdymor eu natur.

Mae'r Awdurdod Gweinyddu yn cymryd agwedd seiliedig ar risg tuag at ariannu. Yn benodol, mae'r gyfradd disgownt (i'r rhan fwyaf o'r cyflogwyr) wedi'i phennu ar sail y tebygolrwydd wedi'i asesu y bydd amcanion yr ariannu yn cael eu bodloni. Mae'r Awdurdod Gweinyddu wedi ystyried 3 phenderfyniad allweddol wrth bennu'r gyfradd disgownt:

Y Targed Diddyledrwydd hirdymor (hynny yw, yr amcan ariannu – y sefyllfa mae'r Awdurdod Gweinyddu am i'r Gronfa ei chyrraedd);

Cyfnod y Taflwybr (Pa mor gyflym mae'r Awdurdod Gweinyddu am i'r Gronfa gyrraedd y sefyllfa honno); a'r

Tebygolrwydd o Lwyddiant (pa mor debygol mae'r Awdurdod Gweinyddu am iddi fod nawr bydd y Gronfa yn cyflawni'r Targed Diddyledrwydd erbyn diwedd Cyfnod y Taflwybr mewn gwirionedd).

Mae'r tri dewis yma, wedi'u hategu gan broses modelu risg gymhleth (stocastig) a gynhelir gan Actiwari'r Gronfa yn diffinio'r gyfradd disgownt (tybiaeth enillion buddsoddi) a fydd yn cael ei defnyddio, a thrwy ehangu, lefelau priodol y cyfraniadau cyflogwr sy'n daladwy. Gyda'i gilydd maen nhw'n mesur lefel risg (ac felly hefyd lefel ddoethineb) y



strategaeth ariannu. Mae'r rhain yn cael eu hystyried yn  
fwy manwl isod.

**Cyrff Derbyniedig a chyrff sydd ar gau i aelodau newydd**

O ran Cyrff Derbyniedig, bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn talu sylw arbennig i'r posibilrwydd y bydd cyfranogiad yn dod i ben (neu i'r posibilrwydd na fydd aelodau sy'n cyfrannu), amseru posibl gadael y gronfa, ac unrhyw newid tebygol yn y strategaeth buddsoddi amcanol neu wirioneddol o ran yr asedau sy'n cael eu dal mewn perthynas â chyfrifoldebau ariannol y Corff Derbyniedig ar y dyddiad dod i ben (hynny yw, a fydd y cyfrifoldebau ariannol yn dod yn rhai 'amddifad' neu a oes gwarantwr yn bodoli i fod yn atebol am yr asedau a chyfrifoldebau ariannol amcanol).

### **Cyfrifoldebau Ariannol Amddifad**

Cyfrifoldebau ariannol yw'r rhain sydd heb gyflogwr yn y Gronfa sy'n eu hariannu. Er mwyn lleihau'r risg i gyflogwyr eraill yn y Gronfa, tybir bydd yr asedau sy'n berthnasol yn amcanol i'r cyfrifoldebau ariannol yma yn cael eu buddsoddi mewn buddsoddiadau risg isel. Mae rhagor o fanylion am hyn i'w gweld yn bellach ymlaen yn y ddogfen yma.



---

## **Diddyledrwydd a 'Llwyddiant Ariannu'**

Prif nod y Gronfa yw diddyledrwydd hirdymor. Yn unol â hynny, bydd cyfraniadau cyflogwyr yn cael eu pennu fel bydd modd bodloni 100% o'r cyfrifoldebau ariannol yn yr hirdymor.

Ystyrir bod y Gronfa'n ddiddyled pan fydd yr asedau sy'n cael eu dal yn hafal i 100% (neu'n uwch na hynny) o'r cyfrifoldebau wedi'u hasesu drwy ddefnyddio dulliau a thybiaethau actiwaraid priodol. Barn yr Awdurdod Gweinyddu yw y bydd ei strategaeth ariannu yn sicrhau diddyledrwydd oherwydd bydd gan y cyflogwyr (gyda'i gilydd) y gallu ariannol i gynyddu cyfraniadau'r cyflogwyr os yw'r amgylchiadau yn y dyfodol yn gofyn am hynny, er mwyn parhau i dargedu lefel ariannu o 100%.

Ar gyfer Cyrff Cofrestredig a Derbyniedig lle mae Cyflogwr Cynllun â chyfamod dibynadwy wedi cytuno i fod yn atebol am ei asedau a chyfrifoldebau ariannol ar ôl terfynu, mae'r Targed Diddyledrwydd wedi'i bennu:

- ar lefel sydd wedi'i chynghori gan Actiwari'r Gronfa yn amcan ariannu hirdymor doeth i'r Gronfa ei gyflawni ar ddiwedd Cyfnod y Taflwybr,
- yn seiliedig ar fuddsoddi parhaus mewn amrywiaeth o asedau twf ac asedau cyfatebol sydd â'r bwriad o ddod ag enillion cyffredinol sy'n uwch na chyfradd cynyddu'r pensiynau a'r cyfrifon pensiwn (Mynegai Prisiau Defnyddwyr).

Fel mae'r sefyllfa ar 31 Mawrth 2022, at ddiben y targed Diddyledrwydd diwethaf, tybir mai 2% y flwyddyn yw cyfradd hirdymor y Mynegai Prisiau Defnyddwyr a thybir bod enillion buddsoddiad hirdymor doeth 2% yn uwch na'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Fel mae'r sefyllfa ar 31 Mawrth 2022, y gyfradd disgownt diddyledrwydd felly yw 4% y flwyddyn. Mae'r Targed Diddyledrwydd yn darged hirdymor y caiff lefel y risg yn y strategaeth ariannu ei fesur yn ei erbyn. Mae tybiaethau'r Targed Diddyledrwydd yn wahanol i'r rhai sy'n sail i'r targed ariannu a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r cyfrifoldebau ariannol (gweler isod o le mae'r tybiaethau hynny'n deillio)



I Gyrff Derbyniedig a chyrrff eraill y disgwylir i'w cyfrifoldebau ariannol fod yn amddifad ar ôl terfynu, bydd dull mwy doeth yn cael ei ddefnyddio. Bydd y Targed Diddyledrwydd yn cael ei bennu trwy ystyried y sail brisio a fyddai'n cael ei defnyddio pe bai'r corff yn gadael y Gronfa. I'r rhan fwyaf o gyrff o'r fath, bydd y Targed Diddyledrwydd yn cael ei bennu'n gymesur â buddsoddiad tybiedig mewn portffolio priodol o fondiau'r Llywodraeth ar ôl terfynu.

Ar gyfer cyflogwyr gohiriedig (h.y. y rhai hynny heb unrhyw aelodau gweithredol ond sy'n parhau i gymryd rhan yn y Gronfa trwy Gytundeb Gohirio Dyled (DDA)), disgwylir y bydd y Targed Diddyledrwydd yn cael ei osod trwy ystyried y sail prisio a fyddai'n cael ei fabwysiadu unwaith y daw'r Cytundeb Gohirio Dyled i ben. Ar gyfer y rhan fwyaf o gyrff o'r fath, bydd gosod y Targed Diddyledrwydd yn gymesur â'r buddsoddiad tybiedig mewn bondiau'r Llywodraeth ar ddiwedd cyfnod y Cytundeb Gohirio Dyled.

### **Tebygolrwydd Llwyddiant y Gronfa**

Mae'r Awdurdod Gweinyddu yn ystyried bod y Gronfa wedi llwyddo os yw hi wedi bwrw'r Targed Diddyledrwydd ar ddiwedd Cyfnod y Taflwybr. Tebygolrwydd Llwyddiant y Gronfa yw'r tebygolrwydd wedi'i asesu y bydd hyn yn digwydd yn seiliedig ar lefel y cyfraniadau sy'n daladwy gan aelodau a chyflogwyr a modelu cyfrifoldebau ariannol asedau sy'n cael ei gynnal gan Actiwari'r Gronfa.

Mae'r gyfradd disgownt, ac felly lefel gyffredinol y cyfraniadau cyflogwr sy'n ofynnol, wedi cael ei phennu fel bod Actiwari'r Gronfa yn disgwyl bod tebygolrwydd o oddeutu 77% y byddai'r Gronfa yn cyrraedd ei Tharged Diddyledrwydd ar ôl 25 o flynyddoedd, neu yn mynd y tu hwnt iddo.

### **Targed Ariannu**

Y Targed Ariannu yw swm yr asedau y mae angen i'r Gronfa ei ddal ar y dyddiad prisio i dalu'r cyfrifoldebau ariannol ar y dyddiad hwnnw fel sydd wedi'i ddangos gan y dull prisio o ddewis a'r tybiaethau a'r data prisio. Mae'r cyfrifiadau prisio, gan gynnwys cyfraniadau gwasanaeth y dyfodol ac unrhyw addasiad ar gyfer gwarged neu ddiffyg, yn pennu lefel y cyfraniadau taladwy ac yn gosod y tebygolrwydd y bydd y Targed Diddyledrwydd yn cael ei fwrw ar ddiwedd Cyfnod y Taflwybr (wedi'i ddiffinio isod). Mae'r tybiaethau allweddol sy'n cael eu defnyddio i asesu'r Targed Ariannu yn cael eu crynhoi yn Atodiad 1.

Yn gyson â'r nod o alluogi prif gyfradd cyfraniadau cyflogwyr i gael eu cadw mor gyson â phosibl, mae cyfraniadau'n cael eu pennu drwy ddefnyddio'r dull prisio Rhagamcanu Unedau i'r rhan fwyaf o'r Cyflogwyr. Mae'r dull Rhagamcanu Unedau yn cael ei ddefnyddio ym mhrisiad yr actiwari er mwyn pennu cost y buddion sy'n cronni i gyflogwyr sy'n parhau i dderbyn aelodau newydd. Mae hyn yn golygu bod y gyfradd gyfrannu



sylfaenol (h.y gwasanaeth y dyfodol) yn deillio o gost y  
buddion sy'n cronni i'r aelodau sy'n gyflogeion dros y flwyddyn  
yn dilyn y dyddiad prisio wedi'i fynegi fel canran o dâl  
pensiynadwy'r aelodau

dros y cyfnod hwnnw. Bydd y gyfradd gwasanaeth yn y dyfodol (cynradd) yn sefydlog os yw proffil yr aelodaeth (oedran, rhyw ac ati) yn sefydlog.

I gyflogwyr sydd ddim yn derbyn aelodau newydd mwyach, mae'r dull prisio Cyrraedd Oed yn cael ei ddefnyddio fel arfer. Mae hyn yn golygu bod y gyfradd gyfrannu yn deillio o gost gyfartalog y buddion sy'n cronni i'r aelodau dros y cyfnod hyd nes iddyn nhw farw, gadael y Gronfa neu'n ymddeol. Dylai'r dull yma arwain at gyfraddau cyfrannu cyflogwyr sy'n fwy sefydlog na defnyddio'r dull Rhagamcanu Unedau i gyflogwyr caeëdig.

### **Targedau a thybiaethau ariannol sy'n ymwneud â strategaeth buddsoddi'r dyfodol**

Ar gyfer Cyrff Rhestredig a Chyrff Derbyniedig sydd ag ymrwymiad dosbarthiad gan Gyflogwr Cynllun hirdymor o gyfamod cadarn, a Chyrff Derbyniedig sydd wedi'u derbyn i'r Gronfa ar sail "trefniant cronni trwybàs" (gweler isod am ragor o wybodaeth) gyda Chorff Cofrestredig diogel hirdymor, mae'r Awdurdod Gweinyddu yn rhagdybio buddsoddiad amhenodol mewn ystod eang o asedau uchel eu risg yn hytrach nag asedau di-risg.

I Gyrff Derbyniedig a chyrff eraill y mae disgwyl i'w cyfrifoldebau ariannol fod yn amddifad ar ôl terfynu, bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn ystyried y canlynol:

- y posibilrwydd y bydd y cyfranogiad yn dod i ben (neu na fydd gan y corff aelodau sy'n cyfrannu), gan gynnwys a yw'n derbyn aelodau newydd neu beidio, neu wedi sefydlu is-gwmni i gyflogi staff sydd ddim yn cymryd rhan yn y Gronfa,
- y math o wasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan y cyflogwr (er enghraifft, statudol neu beidio), a chyfamod y cyflogwr,
- amseru posibl gadael y Gronfa,
- y targed ariannu a ddewiswyd yn y prisiad blaenorol
- unrhyw newid tebygol yn y strategaeth amcanol neu wirioneddol o ran yr asedau sy'n cael eu dal mewn perthynas â chyfrifoldebau ariannol y corff ar ddyddiad y terfynu (hynny yw, wedi'i lywio gan ddibynnu ar a fydd y cyfrifoldebau ariannol yn dod yn 'amddifad' neu a yw gwarantwr yn bodoli i fod yn atebol am yr asedau a'r cyfrifoldebau ariannol amcanol).

Y targed ariannu diodyn ar gyfer Cyrff Derbyniedig na ddisgwylir iddyn nhw gymryd rhan yn y Gronfa yn barhaus ac a fyddai'n gadael cyfrifoldebau ariannol amddifad wrth adael (gan gynnwys lle mae hi'n bosibl bod gwarantwr wedi gadael y Gronfa cyn y corff derbyniedig mae'n ei warantu), yw'r targed ariannu "amddifad parhaus". Mae hyn yn cymryd i ystyriaeth y ffaith y bydd y cyfrifoldebau ariannol yn cael eu



priso gan gyfeirio at enillion gilt wrth adael. Serch hynny, fel ym mhriiad 2022, parhaodd yr Awdurdod Gweinyddu â'i ddull blaenorol o ganiatáu ar gyfer disgwyliadau'r farchnad o gynnydd yn y dyfodol mewn arenillion giltiau wrth osod y



gyfradd ddisgownt ar gyfer y targed cyllid amddifad parhaus er mwyn darparu cyfraniadau mwy fforddiadwy. Mae rhagor o fanylion yn Atodiad 1

I Gyrff Derbyniedig sy'n derbyn aelodau newydd y bernir eu bod â chyfamod digon cadarn, gall yr Awdurdod Gweinyddu, yn ôl ei ddisgresiwn ei hun, gyfarwyddo Actiwari'r Gronfa i ddefnyddio cyfradd disgownt sy'n uwch na'r gyfradd a ddewisir ar gyfer y targed ariannu amddifad parhaus (ond sy'n is na'r hyn a ddewisir ar gyfer y cyrff cofrestredig diogel hirdymor). Gelwir hyn yn 'darged ariannu canolraddol'.

Ar gyfer cyflogwyr gohiriedig lle mae Cytundeb Gohirio Dyled yn ei le, bydd y targed cyllido yn ystyried unrhyw newid tebygol yn y strategaeth fuddsoddi dybiannol neu wirioneddol o ran yr asedau a ddelir mewn perthynas â chyfrifoldebau ariannol y corff ar y dyddiad y disgwylir i'r Cytundeb Gohirio Dyled ddod i ben ac unrhyw ffactorau eraill a ystyrir yn berthnasol gan yr Awdurdod Gweinyddu ar gyngor Actiwari'r Gronfa, a all gynnwys, heb gyfyngiad:

- cyfnod cytunedig y Cytundeb Gohirio Dyled;
- math/grŵp y cyflogwr;
- cynlluniau busnes y cyflogwr;
- asesiad o gyfamod ariannol y cyflogwr;
- unrhyw sicrwydd wrth gefn sydd ar gael i'r Gronfa neu a gynigir gan y cyflogwr megis gwarantwr neu drefniadau bond, tâl dros asedau, ac ati.

Ystyrir bod y Gronfa wedi'i hariannu'n llawn pan fydd yr asedau yn hafal i 100% o'r Targed Ariannu (neu ar lefel uwch na hynny), lle asesir y targed ariannu ar sail swm y targedau ariannu priodol ar draws yr holl gyflogwyr/grwpiau o gyflogwyr.

---

## *Agweddau Eraill ar y Strategaeth Ariannu*

**Cynnydd mewn  
pensiwn yn y  
dyfodol ac  
adbrizio cyfrifon  
pensiwn**

Ar gyfer yr holl dargedau ariannu lle mae'r gyfradd ddisgownt wedi'i gosod yn seiliedig ar strategaeth fuddsoddi'r Gronfa a'r Tebygolrwydd o Lwyddiant Cyllid sydd wedi'i gytuno, (yn hytrach na buddsoddiad tybiedig mewn asedau risg isel), gwneir lwfans ar gyfer cynnydd yn y pensiwn yn y dyfodol ac adbrizio cyfrifon pensiwn gan ddefnyddio rhagdybiaeth ar gyfer cynnydd ym Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) yn y dyfodol sy'n deillio'n gyson â'r modelu sy'n sail i'r cyfraddau disgownt. Ym mhrisiad 2022 dyma ragdybiaeth amcangyfrif gorau hirdymor y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) o 2.3% y flwyddyn fel y nodir yn Atodiad 1.

Wrth asesu'r cyfrifoldebau ariannol, mae modd rhoi lwfans hefyd ar gyfer unrhyw bwysau chwyddiannol tymor byr pan ystyrir bod hyn yn briodol ac yn ddoeth. Ym mhrisiad 2022 bydd addasiad o 10% yn cael ei ychwanegu at y cyfrifoldebau ariannol ar gyfer y corff cofrestredig tymor hir diogel a thargedau chyllid



canolraddol. Bydd yr addasiad hwn yn cael ei adolygu bob chwarter i sicrhau ei fod yn parhau'n briodol yng ngoleuni amodau'r farchnad presennol

Ar gyfer targedau ariannu lle mae'r gyfradd ddisgownt yn cael ei gosod drwy gyfeirio at arenillion giltiau, bydd rhagdybiaeth chwyddiant yn cael ei gosod drwy ystyried chwyddiant adennill costau a awgrymir gan y farchnad. Bydd hwn yn deillio o gymharu'r arenillion ar giltiau llog mynegrifol hir-ddyddiedig a llog sefydlog ar y dyddiad prisio a'u haddasu ar gyfer y gwahaniaeth disgwyliedig rhwng Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) a Mynegai Prisiau Manwerthu(RPI). Arweiniodd hyn at ragdybiaeth chwyddiant mewn perthynas â rhwymedigaethau amddifad a rhwymedigaeth gadael gwasanaeth ar gyfer y targed cyllid amddifad parhaus o 3.4% ar 31 Mawrth 2022.

Serch hynny, yng ngoleuni lefel isel iawn yr arenillion giltiau gwirioneddol ar ddyddiad prisio 2022, er mwyn cadw cyfraniadau'n fwy fforddiadwy i gyflogwyr yn amodol ar y targed ariannu amddifad parhaus, roedd y rhagdybiaeth Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) a fabwysiadwyd ar gyfer cyfrifoldebau ariannol gwasanaeth a adawyd yn cyfateb i 2.9%<sup>1</sup>.

Mae rhagor o fanylion am y lwfans a wnaed ar gyfer chwyddiant tymor byr ym mhrisiad 2022 wedi eu nodi yn Atodiad 1

## Cyfnodau Adfer

Lle mae prisiad yn datgelu bod y Gronfa â gwarged neu ddiffyg yn erbyn y Targed Ariannu, byddai angen i gyfraddau cyfrannu'r cyflogwyr gael eu haddasu er mwyn targedu adfer ariannu llawn dros gyfnod o flynyddoedd (y Cyfnod Adfer). Mae'r Cyfnod Adfer ar gyfer pob cyflogwr cysylltiedig yn cael ei bennu gan Actiwari'r Gronfa mewn ymgynghoriad â'r Awdurdod Gweinyddu a'r cyflogwr, gyda golwg ar gydbwyso'r gofynion ariannu amrywiol yn erbyn y risgiau ynghlwm oherwydd materion megis cadernid ariannol y cyflogwr a natur ei gyfranogiad yn y Gronfa.

Mae'r Awdurdod Gweinyddu yn cydnabod bod disgwyl i gyfran fawr o gyfrifoldebau ariannol y Gronfa godi fel taliadau buddion dros gyfnodau hir o amser. I gyflogwyr â chyfamod dibynadwy, ac yng nghyd-destun y CPLIL fel cynllun statudol, mae'r Awdurdod Gweinyddu yn barod i gytuno i Gyfnodau Adfer sy'n hwy nag oes gweithio dyfodol cyfartalog aelodaeth y cyflogwr hwnnw. Pan fydd cyflogwyr â diffyg yn y Gronfa, mae'r Awdurdod Gweinyddu yn cydnabod bod dull o'r fath yn gyson â'r nod o gadw cyfraddau cyfrannu cyflogwyr mor gyson â phosibl. Serch hynny, mae'r Awdurdod Gweinyddu hefyd yn cydnabod y risg o ddibynnu ar gyfnodau adfer hir ac, ar y cyd ag Actwari'r Gronfa, wedi cytuno cyfyngiad o 22 mlynedd ar gyfer cyflogwyr mewn gwarged 16 mlynedd ar gyfer \_

<sup>1</sup> Gan fod y rhagdybiaeth Mynegai Prisau Defnyddwyr (CPI) hirdymor o 2.3% yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cyfrifoldebau ariannol yn y gwaith, mae Actiwari'r Gronfa wedi cyflwyno'r rhagdybiaethau gwasanaeth chwith fel CPI o 2.3% a chyfradd ddisgownt o 1.3% (sy'n cyfateb yn fras i 2.9% ac 1.9%)

cyflogwyr mewn diffyg. Polisi'r Awdurdod Gweinyddu yw cytuno Cyfnodau Adfer sy'n dal y fantol yn briodol rhwng risg, fforddiadwyedd a sefydlogrwydd y cyfraniadau o fewn y fframwaith yma.

Ar gyfer cyflogwyr gohiriedig (lle nad oes unrhyw aelodau gweithredol), disgwylir mai'r cyfnod adennill hwyaf fydd y cyfnod sy'n weddill o'r Cytundeb Gohurio Dyled (DDA).

## Grwpio/rhannu neu gyfuno risgiau

Mewn rhai amgylchiadau, gall fod yn ddymunol grwpio cyflogwyr o fewn y Gronfa gyda'i gilydd at ddibenion ariannu (er enghraifft, i gyfrifo cyfraddau cyfrannu cyflogwyr). Gall y rhesymau gynnwys gostyngiad anwadalrwydd cyfraddau cyfrannu i gyflogwyr bach eu maint, hwyluso sefyllfaoedd lle mae cyflogwyr â ffynhonnell gyffredin o gyllid neu gwrdd ag anghenion cyflogwyr sy'n dymuno rhannu'r risgiau sy'n ymwneud â'u cyfranogiad yn y Gronfa.

Mae'r Awdurdod Gweinyddu yn cydnabod y gall grwpio arwain at gymorthdaliadau croes o un cyflogwr i'r llall dros amser. Polisi'r Awdurdod Gweinyddu yw ailedrych ar y sefyllfa ar bob prisiad i wirio a yw'r rhesymeg dros grwpio yn parhau i fod yn berthnasol. Os na, bydd gan gyflogwyr eu cyfraddau cyfrannu eu hunain. I gyflogwyr sydd â mwy na 50 o aelodau sy'n cyfrannu, byddai'r Awdurdod Gweinyddu yn chwilio am dystiolaeth o debygrwydd rhwng cyflogwyr cyn ystyried grwpio. I gyflogwyr y mae eu cyfranogiad am gyfnod sefydlog, mae grwpio yn anhebygol o gael ei ganiatáu.

Ers prisiad 2022, mae un grŵp o gyflogwyr digyswllt yn y Gronfa sydd wedi eu rhoi at ei gilydd at ddibenion ariannu a chyfraniadau, sef y Grŵp Cyrff Cofrestredig Bach. Mae'r Grŵp yma'n cynnwys Cyngorau Tref a Chymuned ac Amlogsfeydd y mae eu cyfraniadau parhaus yn cael eu cronni er mwyn sicrhau mwy o sefydlogrwydd o ran cyfraniadau dros amser oherwydd maint a natur y cyflogwyr yma. Caiff y Grŵp ei ariannu ar yr un targed ariannu â'r prif gyrff rhestredig ac mae'r un cyfnod adfer hefyd yn berthnasol. Caiff yr holl risgiau eu rhannu o fewn y grŵp ers prisiad 2022, a bydd cyfradd gyfrannu gyffredin (% o gyflog) yn cael ei hardystio pan fydd y Grŵp cyfan mewn gwarged. Os yw'r Grŵp mewn diffyg, bydd cyfradd sylfaenol gyffredin yn cael ei hardystio gyda chyfraniadau eilaidd yn cael eu cyfrifo'n % o gyflog y mae modd ei droi i symiau ariannol (cynyddol) os ydy hynny'n cael ei ystyried yn angenrheidiol i ddiogelu'r Grŵp/Gronfa.

Fydd dim olrhain ar wahân o sefyllfaoedd cyllido tybiannol o gwbl ar gyfer y cyflogwyr unigol yn y Grŵp, ond pe bai angen cyfran asedau tybiannol ar gyfer unrhyw un o'r cyflogwyr sy'n rhan o'r grŵp, e.e. wrth ymadael, bydd yn deillio o gymhwyso lefel cyllid y Grŵp i asedau'r cyflogwr a aseswyd gan ddefnyddio targed ariannu'r Corff Cofrestredig (h.y. tybir bod gan bob cyflogwr yn y grŵp yr



---

un  
lefel ariannu, cyfartal i lefel y grŵp yn ei gyfanrwydd). Bydd

---

rhwymedigaethau ar gyfer unrhyw gyflogwr yn y Grŵp sy'n gadael y Gronfa yn cael eu hasesu yn unol â'r darpariaethau cyffredinol a fydd yn cael eu nodi'n ddiweddarach yn y datganiad yma, a bydd yn dibynnu p'un a fydd y cyfrifoldebau ariannol yn cael eu cynnwys gan gyflogwr sicr hirdymor. Does dim bwriad i'r cyflogwyr sy'n weddill yn y Grŵp fod yn gyfrifol am ariannu unrhyw rwymedigaethau pe bai cyflogwr yn y Grŵp yn gadael y Gronfa.

Lle bo grwpiau newydd o gyflogwyr wedi'u sefydlu at ddibenion ariannu yn unig, bydd hyn yn digwydd gyda chydysyniad y cyflogwyr cysylltiedig. Mae'r Awdurdod Gweinyddu hefyd yn barod i derfnu cronni contractwyr gyda Chyflogwr y Cynllun pan mae hynny wedi'i adlewyrch yn y Cytundeb Derbyn  
– gweler yr adran ddiweddarach ar drefniadau Cronni Trwybàs.

Mae'r risgiau ariannu sy'n gysylltiedig â thalu buddion ar ôl marw mewn gwasanaeth a buddion salwch haen 1 a 2 yn cael eu cyfuno i'r holl gyflogwyr yn y Gronfa. Mewn geiriau eraill, mae cost buddion o'r fath yn cael ei rhannu ar draws y cyflogwyr yn y Gronfa.

Gall y buddion yma achosi straen ar gyllid a allai fod yn sylweddol i rai o'r cyflogwyr llai eu maint sydd heb yswiriant na threfniant rhannu risgiau. Oherwydd ei maint, dydy'r Gronfa ddim yn ystyried ei bod hi'n gost-effeithiol nac yn angenrheidiol i yswirio'r buddion yma'n allanol ac ystyrir hyn yn ddull pragmatig a chost isel tuag at ledaenu'r risg.

---

---

### ***Lwfans ar gyfer gwarged mewn cyfraniadau eilaidd***

Cyfrannodd enillion buddsoddi yn y cyfnod hyd at y dyddiad prisio at welliant sylweddol yn sefyllfa ariannu pob cyflogwr. Serch hynny, yng ngoleuni'r gostyngiadau yn y marchnadoedd buddsoddi ers dyddiad prisio 2022 ac ansicrwydd economaidd byd-eang parhaus, er mwyn llyfnhau cyfraniadau cyflogwyr a lleihau'r risg y bydd angen cynnydd o brisiad 2025, dim ond y gwarged uwchlaw lefel ariannu o 110% ar 31 Mawrth 2022 bydd yn cael ei gymryd i ystyriaeth wrth asesu'r cyfraniadau eilaidd ar gyfer cyflogwyr, a hynny'n amodol ar y corff/rhagdybiaeth cofrestredig a thargedau cyllido canolraddol. Bwriad hyn yw osgoi sefyllfa lle mae cyfraniadau cyflogwyr yn gostwng o 1 Ebrill 2023 ond yna angen codi eto o 1 Ebrill 2026 oherwydd bod enillion buddsoddi rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2025 yn is na'r cyfraddau disgownt sy'n sail i'r cyfrifoldebau ariannol.

### ***Camau y newidiadau cyfraniadau***

Bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn ystyried, ar bob prisiad, a ddylai cyfraniadau newydd fod yn daladwy ar unwaith, neu a ddylid cymryd cyfres o gamau dros y blynyddoedd sydd i ddod i dalu'r cyfraniadau. Mae hyn yn gyson â'r nod o gadw cyfraniadau cyflogwyr mor gyson â phosibl. Bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn trafod y risgiau cynhenid i ddull o'r fath ag Actiwari'r

Gronfa

---

## Cyfrifiadau ariannu rhwng prisiadau

---

ac yn edrych yn ofalus ar yr effaith ariannol a'r risgiau cysylltiedig gyda phob cyflogwr.

Lle mae dull 'cyfres o gamau' yn cael ei ddefnyddio pan fydd newid yng nghyfraniadau cyflogwr, polisi'r Awdurdod Gweinyddu yw caniatáu mwyafswm o chwech o gamau cyfartal bob blwyddyn (fel arfer), ac yn ddelfrydol, mwyafswm o dri cham pan fydd y cyfraniadau yn cynyddu. Pan gytunir ar gyfres o gamau wrth gynyddu cyfraniadau, bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn sicrhau bod y cyflogwr yn deall mai system yw hon sy'n llyfnhau cyfraniadau a'i bod yn golygu gohirio costau yn hytrach na'u gostwng, hynny yw, drwy dalu llai yn y tymor byr, bydd angen talu cyfraniadau sy'n fwy yn yr hirdymor.

Pan fydd y cyfnod sy'n weddill cyn i'r cyflogwr adael y Gronfa (yn ôl y disgwyl) yn golygu bod cyfnod byrrach yn briodol, neu mewn amgylchiadau eithriadol eraill, gall cyfnod camau byrrach sydd â phatrwm camu pwrpasol gael ei ganiatáu.

---

Er mwyn monitro datblygiadau ac yn rhan o'r strategaeth rheoli risg gyffredinol, efallai bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn gofyn am brisiadau anffurfiol neu gyfrifiadau eraill o bryd i'w gilydd. Mae rhagor o fanylion am bolisi'r Awdurdod Gweinyddu mewn perthynas â'r canlynol:

- adolygu cyfraniadau ar gyfer cyflogwyr y disgwylir iddyn nhw adael o dan Reoliad 64(4); ac
- fel arall adolygu cyfraniadau cyflogwyr rhwng prisiadau fel y caniateir gan Reoliad 64A

wedi'u nodi yn Adrannau 5 a 6 yn y drefn honno.

---

## *Is-gronfeydd amcanol ar gyfer cyflogwyr unigol*

### Is-gronfeydd amcanol

Er mwyn pennu cyfraddau cyfrannu i gyflogwyr unigol neu grwpiau o gyflogwyr, bydd Actiwari'r Gronfa'n isrannu'r Gronfa gyfan yn amcanol rhwng y cyflogwyr (neu grŵp o gyflogwyr lle mae grwpio yn weithredol), fel pe bai gan bob cyflogwr ei is-gronfa amcanol ei hun o fewn y Gronfa.

At ddibenion ariannu yn unig y mae'r isrannu yma. Mae'n gwbl amcanol o ran ei natur, a dydy e ddim yn dynodi unrhyw israniadau ffurfiol o'r asedau neu grwpiau o asedau gan unrhyw gyflogwr unigol neu grŵp. Mae'n bosibl y bydd yr Is-Gronfa amcanol sy'n cael ei dyrannu at ddiben pennu cyfraniadau parhaus fod yn wahanol i'r un gafodd ei neilltuo wrth ymadael.

## Trosglwyddo is-gronfeydd

Bydd yr is-gronfa amcanol sy'n cael ei dyrannu i gyfrifoldebau ariannol pob cyflogwr neu grŵp ar gyfer pennu cyfraniadau parhaus yn ystod ei gyfnod cyfrannu at y Gronfa yn cael ei throsglwyddo gan ystyried pob llif arian sy'n gysylltiedig ag aelodaeth y cyflogwr neu'r grŵp hwnnw, gan gynnwys incwm cyfrannu, treuliau buddion, trosglwyddiadau i mewn ac allan ac incwm buddsoddi sydd wedi'i ddyrannu fel sydd wedi'i nodi isod. Yn gyffredinol, does dim ystyriaeth yn cael ei rhoi i amseriad y cyfraniadau a thybir bod llifoedd arian yn cael eu gwneud hanner ffordd drwy'r flwyddyn (bob blwyddyn) a bod yr enillion buddsoddi yn cael eu hennill mewn modd cyson dros y flwyddyn honno. Serch hynny, lle mae llif arian untro sylweddol sy'n ymwneud â chyflogwr wedi'i dderbyn neu ei dalu, gofynnir i Actiwari'r Gronfa wneud lwfans ar gyfer amseru cyfraniadau o'r fath.

Bydd addasiadau eraill yn cael eu gwneud ar gyfer y canlynol:

- Didyniad amcanol i gwrdd â'r treuliau a dalwyd o'r Gronfa yn unol â'r dybiaeth a ddefnyddiwyd yn y prisiad blaenorol.
- Lwfans am farwolaeth mewn gwasanaeth ar ffurf cyfandaliadau a buddion iechyd gwael wedi'u rhannu ar draws yr holl gyflogwyr yn y Gronfa (gweler yr uchod).
- Unrhyw drosglwyddiadau sylweddol mewnol hysbys (er enghraifft rhwng cyflogwyr parhaus) i mewn i'r Gronfa gan na fydd llifoedd arian yn bodoli ar gyfer y trosglwyddiadau yma). Ac eithrio bod hwnnw eisoes wedi'i gytuno, Bydd Actiwari'r Gronfa yn tybio llif arian amcangyfrifedig sy'n hafal i werth y cyfrifoldebau ariannol sydd wedi'u pennu drwy ddefnyddio ffactorau gwerth trosglwyddo cyfwerth.
- Addasiad cyffredinol i sicrhau bod yr asedau amcanol wedi'u priodoli i bob cyflogwr yn hafal i gyfanswm asedau'r Gronfa, a fydd yn cymryd unrhyw enillion neu golledion sy'n ymwneud â chyfrifoldebau ariannol amddifad i ystyriaeth.

Mewn rhai achosion, bydd yr wybodaeth sydd ar gael yn anghyflawn ac mewn amgylchiadau o'r fath a lle, ym marn Actiwari'r Gronfa, mae'r data llif arian sydd ddim ar gael o berthnasedd lefel isel, bydd llifoedd arian amcangyfrifedig yn cael eu defnyddio.

Gall fod amgylchiadau lle bydd canlyniadau'r dull gweithredu uchod yn gofyn am addasu pellach, er enghraifft (ond heb fod yn gyfyngedig i hyn), lle mae'r Awdurdod Gweinyddu o'r farn bod angen rhagor o addasiadau i is-gronfeydd amcanol oherwydd newidiadau mewn deddfwriaeth (tebygol o fod lle mae deddfwriaeth ag effaith ôl-weithredol ac yn golygu bod angen ailedrych ar y



dyraniad cychwynnol o asedau pan ymunodd y cyflogwr â'r Gronfa), neu lle mae gwybodaeth newydd arall ar gael sy'n hollbwysig o ran cyfrifo is-gronfa amcanol (er enghraifft, data aelodau diwygiedig neu newidiadau yn yr amodau marchnad).



**Priodoli  
incwm  
buddsoddi**

---

Lle mae'r Awdurdod Gweinyddu wedi cytuno â chyflogwr y bydd yn cael portffolio asedau pwrpasol tybiedig i'w ddyrannu i'w is-gronfa amcanol, bydd yr asedau sydd wedi'u dyrannu yn amcanol i'r is-gronfa honno yn cael eu credydu â chyfradd ennill sy'n briodol i'r portffolio asedau amcanol cytunedig.

Lle nad oes portffolio pwrpasol amcanol o asedau wedi'i ddyrannu i'r cyflogwr, bydd yr asedau sydd wedi'u dyrannu'n amcanol i'r cyflogwr hwnnw yn cael eu credydu â chyfradd ennill asedau'r Gronfa yn eu cyfanrwydd, wedi'i haddasu ar gyfer unrhyw enillion wedi'u credydu i'r cyflogwyr hynny y mae'r portffolio asedau amcanol pwrpasol yn bodoli ar eu cyfer.



## ADRAN 5:

### Amgylchiadau arbennig sy'n ymwneud â Chyflogwyr

#### **Adolygiadau interim i gyflogwyr**

Mae Rheoliad 64(4) o'r Rheoliadau yn rhoi pŵer i'r Awdurdod Gweinyddu gynnal prisiadau mewn perthynas â chyflogwyr lle mae amodau'n bodoli sy'n golygu bod y cyflogwr yn debygol o fod yn gyflogwyr sy'n gadael, ac i'r Actiwari ardystio cyfraddau cyfrannu diwygiedig, rhwng y dyddiadau prisio teirblwydd.

Amcan pwysicaf yr Awdurdod Gweinyddu ar bob adeg mewn perthynas â chyflogwyr cyfranogol yw, lle mae'n bosibl, sicrhau eglurder ar gyfer Targed Ariannu'r cyflogwr hwnnw, a bod y cyfraddau cyfrannu sy'n daladwy yn briodol ar gyfer y Targed Ariannu hwnnw. Serch hynny, dydy hyn ddim yn bosibl bob tro oherwydd gall unrhyw ddyddiad gadael fod yn anhysbys (er enghraifft, gall cyfranogiad gael ei dybio i fod yn amhenodol ar hyn o bryd), a hefyd oherwydd bod amodau'r farchnad yn newid yn ddyddiol.

Dyma ddull gweithredu cyffredinol yr Awdurdod Gweinyddu yn y maes yma:

- Lle mae'r dyddiad gadael yn hysbys, ac mae mwy na 3 blynedd tan hynny, neu mae'r dyddiad gadael yn anhysbys ac yn cael ei dybio i fod yn amhenodol, fydd prisiadau interim ddim yn cael eu cynnal fel arfer ar gais yr Awdurdod Gweinyddu.
- I Gyrrff Derbyniedig Trosglwyddedig ac Atodlen 2 Rhan 3 (1)(d) sy'n dod o dan y categori uchod, mae'r Awdurdod Gweinyddu yn ystyried mai cyfrifoldeb y Cyflogwr Cynllun perthnasol yw ei gyfarwyddo os oes angen prisiad interim. Byddai gweithrediad o'r fath ar draul y Cyflogwr Cynllun perthnasol oni chytunir yn wahanol.
- Gall newid pwysig yn yr amgylchiadau, megis y dyddiad gadael yn dod yn hysbys, symudiadau pwysig aelodau neu wybodaeth ariannol bwysig newydd achosi'r Awdurdod Gweinyddu i adolygu'r sefyllfa yn anffurfiol, a gofyn am brisiad interim yn ffurfiol o ganlyniad.
- I dderbyniadau a fydd yn terfynu o fewn y 3 blynedd nesaf, bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn monitro datblygiadau a gall ei hystyried hi'n briodol gofyn am brisiad interim ar unrhyw adeg.

Er gwaethaf y canllawiau uchod, mae'r Awdurdod Gweinyddu yn arfer hawl i ofyn am brisiad interim



unrhyw gyflogwr ar unrhyw adeg yn unol â Rheoliad 64(4). Mae Rheoliad 64A y Rheoliad yn rhoi'r pŵer i'r Awdurdod Gweinyddu i gael adolygiad o'r dystysgrif cyfraddau ac addasiadau mewn rhai amgylchiadau eraill. Mae rhagor o fanylion am bolisi'r Awdurdod Gweinyddu mewn perthynas â Rheoliad 64A yn cael eu nodi yn Adran 6.

---

## Gwarantwyr

Gall rhai Cyrrff Derbyniedig gymryd rhan yn y Gronfa yn rhinwedd bodolaeth Gwarantwr. Mae'r Awdurdod Gweinyddu yn cadw rhestr o gyflogwyr a'u Gwarantwyr cysylltiedig ac yn monitro dibynadwyedd y gwarantwyr. Oni bai ei fod e'n cael ei hysbysu'n wahanol, mae'r Awdurdod Gweinyddu yn ystyried mai dyletswydd y Gwarantwr yw'r canlynol:

- Os yw Corff Derbyniedig yn terfynu ac yn methu â pharchu ei rwymedigaethau ariannol i'r Gronfa, bydd disgwyl i'r Gwarantwr wneud iawn am hyn fel bod y Gronfa yn derbyn y swm mae Actiwari'r Gronfa wedi'i ardystio, a rhaid i hyn gynnwys unrhyw log sy'n ofynnol.
  - Os yw'r Gwarantwr yn gyflogwr yn y Gronfa, a barn yr Awdurdod Gweinyddu yw ei fod â chyfamod cadarn, gall y Gwarantwr dalu rhywfaint o'r arian gweddilliol drwy'i gynnwys yn ei gyfrifoldebau ariannol ei hun. Mewn geiriau eraill, mae'n cytuno i fod yn ffynhonnell ariannu yn y dyfodol mewn perthynas â'r cyfrifoldebau ariannol hynny pe bai diffygion yn codi.
  - Yn ystod cyfnod cyfranogiad y Corff Derbyniedig, gall Gwarantwr ar unrhyw adeg gytuno i fod yn atebol am unrhyw gyfrifoldebau ariannol gweddilliol Corff Derbyniedig. Effaith y cam hwnnw yn gyffredinol fyddai lleihau'r Targed Ariannu ar gyfer y Corff Derbyniedig, a fyddai'n debygol o arwain at lai o ofynion cyfraniadau, er y byddai'r Awdurdod Gweinyddu yn ystyried bwriadau'r Gwarantwr a'i gytundeb â'r Corff Derbyniedig. Dylai'r Gwarantwr sicrhau ei bod yn glir beth fyddai'n digwydd i unrhyw warged a fyddai'n codi ar ymadawiad dilynol y Corff Derbyniedig, yn enwedig a fyddai credyd ymadael yn daladwy ai peidio.
- 

## Bondiau a gwarannu arall

Mae Atodlen 2 o Ran 3 o'r Rheoliadau yn ei gwneud hi'n ofynnol i gorff derbyniedig newydd gynnal asesiad er bodlonrwydd yr Awdurdod Gweinyddu (a'r Cyflogwr Cynllun os yw Corff Derbyniedig wedi'i dderbyn o dan Atodlen 2 o Ran 3 paragraff (1)(d) o'r Rheoliadau), gan gymryd i ystyriaeth cyngor yr actiwari, lefel y risg o derfyniad cynnar darpariaeth gwasanaeth neu asedau oherwydd ansolfedd, dirwyn i ben neu ddiddymu'r



corff derbyniedig.

Lle mae lefel y risg sydd wedi'i nodi yn yr asesiad yn golygu bod angen hyn, bydd y Corff Derbyniedig yn ymrwymo i indemniad neu fond gyda chorff addas.

Lle nad yw'n ddymunol (am unrhyw reswm) i Gorff Derbyniedig ymrwymo i fond indemniad, bydd gofyn i'r Corff Derbyniedig sicrhau gwarant ar ffurf sy'n bodloni'r Awdurdod Gweinyddu fel sydd wedi'i nodi yn Atodlen 2, Rhan 3, paragraff (8).

Dyma ddull gweithredu'r Awdurdod Gweinyddu yn y maes yma:

- a) Yn achos Cyrff Derbyniedig Trosglwyddedig a Chyrff Derbyniedig sydd wedi'u derbyn o dan Atodlen 2, Rhan 3 (1)(d) o'r Rheoliadau a Chyrff Derbyniedig eraill lle mae Cyflogwr Cynllun yn gweithredu fel gwarantwr, ac ar yr amod bod yr Awdurdod Gweinyddu o'r farn bod y Cyflogwr Cynllun perthnasol â chyfamod dibynadwy, bydd unrhyw fond yn bodoli dim ond i ddiogelu'r Cyflogwr Cynllun neu'r Gwarantwr perthnasol os yw'r Corff Derbyniedig yn diffygdlu. Am hynny, polisi'r Awdurdod Gweinyddu yw y dylai'r Cyflogwr Cynllun neu'r Gwarantwr perthnasol bennu lefel y bond gofynnol (er bodlonrwydd yr Awdurdod Gweinyddu). Mae modd i'r Awdurdod Gweinyddu gyflenwi cyfrifiadau safonol sydd wedi'u darparu gan Actiwari'r Gronfa er mwyn cynorthwyo'r Cyflogwr Cynllun perthnasol, a fyddai'n bodloni'r Awdurdod Gweinyddu, ond ddylai hynny ddim cael ei ddehongli fel cyngor i'r Cyflogwr Cynllun perthnasol ar y mater yma. Mae'r Awdurdod Gweinyddu yn nodi gall lefelau sicrwydd y bond gofynnol amrywio ac yn argymhell y dylai'r Cyflogwyr Cynllun perthnasol adolygu lefel y sicrwydd gofynnol yn rheolaidd – o leiaf unwaith y flwyddyn.
- b) Yn achos Cyrff Derbyniedig wedi'u crybwyll yn a) uchod, lle nad yw'r Awdurdod Gweinyddu o'r farn bod y Cyflogwr Cynllun perthnasol â chyfamod digon dibynadwy, bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn pennu lefel y bond er mwyn diogelu'r Gronfa. Bydd modd i'r derbyniad fynd yn ei flaen dim ond os yw'r Awdurdod Gweinyddu yn cytuno ei fod yn fodlon ar lefel sicrwydd y bond. Mae'r Awdurdod Gweinyddu yn nodi gall lefelau sicrwydd gofynnol y bond amrywio ac yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cyflogwyr Cynllun perthnasol adolygu (ar y cyd) lefel y sicrwydd gofynnol gydag ef yn rheolaidd – o leiaf unwaith y flwyddyn.
- c) I bob Corff Derbyniedig arall, yr Awdurdod Gweinyddu fydd yn pennu lefel ofynnol y bond er mwyn diogelu'r Gronfa. Bydd modd i'r derbyniad fynd yn ei flaen dim ond os yw'r Awdurdod Gweinyddu yn



cytuno ar lefel sicrwydd y bond. Mae'r Awdurdod  
Gweinyddu yn nodi fod modd i lefelau'r yswiriant  
bond gofynnol amrywio a



phan fydd bond yn cael ei roi ar waith, yn adolygu'r yswiriant gofynnol yn rheolaidd, o leiaf unwaith y flwyddyn.

## Cyfrifoldebau ariannol wedi'u trosglwyddo

Pan mae cyflogwr yn peidio â chymryd rhan yn y Gronfa, mae hi'n bosibl y bydd cyflogwr arall yn y Gronfa yn darparu ffynhonnell gyllid yn y dyfodol mewn perthynas ag unrhyw ddiffygdlu sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â'r cyfrifoldebau ariannol hynny.

Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd y cyfrifoldebau ariannol yn cael eu hystyried yn rhai sydd wedi'u trosglwyddo ['subsumed'], hynny yw, mae'r cyflogwr derbyn yn dod yn atebol amdany'n nhw. I gyfrifoldebau ariannol o'r fath, bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn tybio bod y buddsoddiadau wedi'u dal mewn perthynas â'r cyfrifoldebau ariannol hynny yr un peth â gweddill cyfrifoldebau ariannol y cyflogwr derbyn. Yn gyffredinol, bydd hyn yn golygu derbyn buddsoddi parhaus mewn amrywiaeth o asedau twf ac asedau cyfatebol.

## Trefniadau cronni trwybàs

Mae'r Awdurdod Gweinyddu yn cydnabod, pan mae Cyflogwyr y Cynllun yn rhoi gwasanaethau ar gontract allanol i gontractwyr trydydd parti, y gallai fod yn fuddiol i Gyflogwr y Cynllun gadw llawer o'r risg sy'n gysylltiedig ag ariannu buddion pensiwn. Os ydy Cyflogwr y Cynllun a chontractwr Corff Derbyn a dderbyniwyd o dan Baragraff 1(d) o Ran 3 o Atodlen 2 i Reoliadau CPLIL yn cytuno ar hynny, a chaiff ei adolygu yn y Cytundeb Derbyn, bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn cyfarwyddo'r Actiwari i drin y Cyflogwr Cynllun a'r contractwr yn rhan o gronfa at ddibenion ariannu.

Y dull rhagosodedig ar gyfer "trefniadau cronni trwybàs" o'r fath fel a ganlyn:

- bydd y Corff Derbyniedig yn ffurfio "cronfa" gyda Chyflogwr y Cynllun, h.y. bydd y cyfrifoldebau ariannol yn cael eu hasesu ochr yn ochr â rhai Cyflogwr y Cynllun a chyflogwyr eraill yn y gronfa a fydd dim unrhyw isrannu asedau amcanol rhwng cyflogwyr yn y gronfa at ddibenion ariannu.
- Bydd Cyfradd Cyfraniad Sylfaenol gyffredin yn berthnasol i bob cyflogwr yn y gronfa yn seiliedig ar aelodaeth weithredol o'r gronfa yn ei chyfanrwydd.
- I'r diben o ardystio Cyfradd Cyfraniad Eilaidd i gyflogwyr parhaus yn y gronfa, bydd unrhyw warged neu ddiffyg yn y Gronfa sydd i'w briodoli i'r gronfa yn cael ei ddosrannu rhwng y cyflogwyr yn y gronfa, ac yn gymesur â Thâl Pensiynadwy ei haelodau.
- Fydd dim angen unrhyw daliad ymadael gan y contractwr wrth ymadael, nac unrhyw gredyd



ymadael sy'n ddyledus iddo (bydd ei  
gyfrifoldebau'n aros yn y gronfa i'w hariannu gan  
Gyflogwr y  
Cynllun)

---

## Cyfrifoldebau Ariannol Amddifad

Pan fo cyflogwr yn rhoi'r gorau i gymryd rhan yn y Gronfa fel na fydd ganddo bellach unrhyw aelodau sy'n cyfrannu, heblaw bod unrhyw gyfrifoldebau ariannol gweddillol yn dod yn gyfrifoldebau ariannol sydd wedi'u trosglwyddo, neu bod Cytundeb Gohirio Dyled bellach ar waith, bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn gweithredu ar y sail na fydd gydag ef unrhyw fynediad pellach at gyllid gan y cyflogwr hwnnw unwaith i'r prisiad terfynol (wedi'i gynnal yn unol â Rheoliad 64) gael ei gwblhau a bod unrhyw symiau sy'n ddyledus wedi'u talu. Gelwir cyfrifoldebau ariannol gweddillol cyflogwyr nad oes modd cael cyllid ganddyn nhw mwyach yn gyfrifoldebau ariannol amddifad.

Bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn ceisio lleihau'r risg i gyflogwyr eraill yn y Gronfa oherwydd unrhyw ddiffyg sy'n codi yn sgil cyfrifoldebau ariannol amddifad fel bydd hyn yn peri cost i'r cyflogwyr eraill hynny i wneud iawn am y diffyg. I wneud hyn, bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn ceisio cyllid gan y cyflogwr sy'n gadael, sy'n ddigon i'w alluogi i baru'r cyfrifoldebau ariannol â buddsoddiadau risg isel, yn gyffredinol, bondiau llog sefydlog y Llywodraeth a bondiau mynegrifol.

Pan fydd cyflogwr yn gadael y Gronfa ac mae cyfrifoldebau ariannol y cyflogwr hwnnw'n dod yn amddifad (h.y. does yr un cyflogwr arall yn y cynllun yn cymryd cyfrifoldeb am y cyfrifoldebau ariannol hynny), bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn amcanol yn dyrannu asedau yn y Gronfa i gwrdd â'r cyfrifoldebau ariannol hynny sy'n gyson â'r dull sy'n cael ei ddefnyddio i bennu'r cyfrifoldebau ariannol wrth ymadael. Gan fod y targed ariannu wrth ymadael yn rhagdybio buddsoddiad mewn bondiau'r Llywodraeth, bydd yr Awdurdod Gweinyddu felly yn dyrannu'n amcanol cyfran o'i bortffolio bondiau'r Llywodraeth i gyfateb yn fras i unrhyw gyfrifoldebau ariannol amddifad.

Tybir bydd cyfrifoldebau ariannol yn y Gronfa sydd eisoes yn amddifad yn cael eu hariannu 100% ar y targed ariannu priodol ar bob prisiad teirblwydd. Bydd hyn yn cael ei gyflawni gan yr Actiwari yn ailddyrannu asedau yn amcanol o fewn y Gronfa yn ôl y gofyn.

## Ymadawiad cyflogwyr

Lle mae cyflogwr yn gadael y Gronfa, bydd prisiad gadael yn cael ei gynnal yn unol â Rheoliad 64. Bydd y prisiad hwnnw yn ystyried unrhyw weithgarwch o ganlyniad i derfynu'r cyfranogiad mewn perthynas ag unrhyw aelodau presennol sy'n cyfrannu (er enghraifft, unrhyw daliadau trosglwyddo swmp sy'n ddyledus) a statws unrhyw gyfrifoldebau ariannol a fydd yn aros yn y Gronfa.

Bydd y dull sy'n cael ei ddefnyddio i brisio cyfrifoldebau ariannol y cyflogwr sy'n gadael (ar gyfer y prisiad gadael) yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Yn benodol, bydd y prisiad gadael yn gwahaniaethu rhwng cyfrifoldebau ariannol gweddilliol, a fydd yn dod yn gyfrifoldebau ariannol amddifad, a chyfrifoldebau ariannol a fydd yn cael eu trosglwyddo gan gyflogwr diogel hirdymor, er enghraifft, un o'r cynghorau.

### Cyfrifoldebau Ariannol Amddifad

O ran cyfrifoldebau ariannol amddifad, wrth bennu'r Targed Ariannu yn y prisiad gadael, bydd buddsoddiadau risg isel megis bondiau'r Llywodraeth yn cael eu hystyried. Mae hyn er mwyn diogelu cyflogwyr eraill yn y Gronfa, oherwydd, wrth adael, bydd cyfrifoldebau ariannol y cyflogwr yn dod yn gyfrifoldebau ariannol "amddifad" o fewn y Gronfa, a does dim atebolrwydd i'r cyflogwr hwnnw (y cyn-gyflogwr) os yw diffyg yn dod i'r amlwg mewn perthynas â'r cyfrifoldebau ariannol ar ôl y dyddiad gadael.

Yn gyffredinol, bydd unrhyw ddiffyg neu warged yn y Gronfa mewn perthynas â'r cyflogwr yn ddyledus i'r Gronfa fel cyfraniad terfynu, neu'n daladwy gan y Gronfa i'r cyflogwr fel credyd gadael (yn ôl y drefn), lle mae'r dyddiad gadael ar 14 Mai 2018, neu ar ôl hynny.

### Cyfrifoldebau ariannol wedi'u trosglwyddo

I gyfrifoldebau ariannol wedi'u trosglwyddo, bydd prisiad gadael y cyfrifoldebau ariannol yn cael eu pennu ar y sail y bydd y cyflogwr cynllun sy'n darparu'r ymrwymiad atebolrwydd yn cymryd cyfrifoldeb dros yr holl asedau a chyfrifoldebau ariannol gan y cyflogwr sy'n gadael. Fydd dim unrhyw gredyd gadael yn cael ei dalu i'r cyflogwr sy'n gadael a fydd dim gofyn iddo dalu dyled gadael chwaith, oni bai fod y cyflogwr sy'n gadael mewn gwarged pan fydd y cyfrifoldebau ariannol yn cael eu cyfrifo drwy ddefnyddio Targed Ariannu sy'n ystyried buddsoddi mewn buddsoddiadau risg isel megis bondiau'r Llywodraeth. Bydd yr asedau a'r cyfrifoldebau ariannol yn cael eu trosglwyddo i'r cyflogwr sy'n derbyn atebolrwydd, a bydd gofynion cyfrannu'r dyfodol y cyflogwr yma'n cael eu hailasesu ar bob prisiad actiwaraid.

Yn ogystal â hynny, yn y ddwy sefyllfa, gall yr Awdurdod Gweinyddu, ar ei ddisgresiwn ei hun, gynnwys gorsymiau er

doethineb, o gymharu â'r dull sy'n cael ei ddefnyddio wrth bennu cyfraniadau parhaus, er enghraifft (ond ddim yn gyfyngedig i'r rhain), mewn perthynas ag ansicrwydd rheoliadol (sydd, ar ddyddiad y Datganiad yma, yn cynnwys ansicrwydd sy'n ymwneud ag achos McCloud,

achos Goodwin a'r broses rheoli costau) – gweler Adran 9 ar Risgiau a Gwrthfesuau.

At hynny, lle gwnaed newidiadau rheoliadol sy'n effeithio ar werth buddion cronedig ond na chawson nhw eu hadlewyrchu yn y prisiad diweddaraf a ddefnyddiwyd i bennu cyfraniadau parhaus, caniateir ar gyfer y newidiadau yma yn y prisiad ymadael.

### **Asedau amcanol**

Wrth bennu'r asedau wedi'u dyrannu'n amcanol i'r cyflogwr sy'n gadael (wrth adael), bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r cyfraniadau a wnaed gan y cyflogwr i asedau cyffredinol y Gronfa yn ystod ei gyfnod yn cymryd rhan yn y Gronfa. Lle mae hyn yn briodol, gall gwerth yr asedau amcanol fod yn destun capio cyfrifoldebau ariannol y cyflogwr wrth adael, wedi'i gyfrifo drwy ddefnyddio'r Targed Ariannu perthnasol ynghyd â gwerth cronedig y prif gyfraniadau a'r cyfraniadau eilaidd a dalwyd gan y cyflogwr hwnnw. Wrth bennu gwerth cronedig y cyfraniadau yma, bydd enillion buddsoddi yn cael eu dyrannu ar sail y portffolio asedau sy'n berthnasol i'r cyflogwr.

### **Rhoi taliadau ymadael fesul tipyn**

Pan fydd taliad ymadael yn ddyledus, oni bai fod Cytundeb Gohirio Dyled yn cael ei wneud, polisi'r Awdurdod Gweinyddu yw ei gwneud yn ofynnol i gael cyfandaliad unwaith ac am byth sy'n hafal i'r diffyg ymadael. Serch hynny, mewn rhai amgylchiadau efallai bydd modd i gyflogwyr ofyn bod y taliad ymadael yn cael ei roi fesul tipyn ar sail fforddiadwyedd. Mae polisi'r Awdurdod Gweinyddu ar roi taliadau ymadael fesul tipyn fel y caniateir gan Reoliad 64B wedi'i nodi yn Adran 7.

---

#### **Cytundebau Gohirio Dyled**

Pan fydd cyflogwr yn peidio â bod ag unrhyw aelodau gweithredol neu y byddai fel arall yn dod yn gyflogwr sy'n ymadael, gall ofyn i'r Awdurdod Gweinyddu ymrwymo i Gytundeb Gohirio Dyled fel y caniateir gan Reoliad 64 (7A) a dod yn gyflogwr gohiriedig.

Mae polisi'r Awdurdod Gweinyddu mewn perthynas â Rheoliad 64(7A) yn cael ei nodi yn Adran 8.

---

## ADRAN 6:

### Adolygu cyfraniadau cyflogwyr rhwng prisiadau o dan Reoliad 64A

#### Cefndir

Mae'r adran yma'n gosod polisiâu a gweithdrefnau'r Awdurdod Gweinyddu mewn perthynas ag unrhyw ddiwygiad i gyfraniadau cyflogwyr rhwng prisiadau ffurfiol fel y caniateir gan Reoliad 64A.

Bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn ystyried adolygu cyfraniadau cyflogwyr rhwng prisiadau ffurfiol o dan yr amgylchiadau canlynol:

- mae'n ymddangos yn debygol i'r Awdurdod Gweinyddu bod swm y cyfrifoldebau ariannol sy'n codi neu'n debygol o godi wedi newid yn sylweddol ers y prisiad diwethaf;
- mae'n ymddangos yn debygol i'r Awdurdod Gweinyddu y bu newid sylweddol yng ngallu'r cyflogwr/cyflogwyr cynllun i gyflawni cyfrifoldebau ariannol cyflogwyr yn y Cynllun; neu
- mae cyflogwr/cyflogwyr cynllun wedi gofyn am adolygiad o gyfraniadau cyflogwyr y Cynllun ac wedi ymrwymo i dalu costau'r adolygiad hwnnw

Er mwyn osgoi amheuaeth, fydd yr Awdurdod Gweinyddu ddim yn ystyried adolygiad o gyfraniadau ar sail newid yn amodau'r farchnad sy'n effeithio ar werth asedau a/neu gyfrifoldebau ariannol yn unig.

---

#### Ffactorau a ystyrir

Wrth benderfynu a ddylid cynnal adolygiad ai peidio, bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn ystyried y ffactorau canlynol (dydy'r rhestr yma ddim yn gynhwysfawr):

- yr amgylchiadau sy'n arwain at y newid mewn cyfrifoldebau ariannol sy'n codi neu'n debygol o godi, er enghraifft a yw hyn yn ganlyniad i benderfyniad gan y cyflogwr, megis ailstrwythuro, trosglwyddo llawer o swyddogaethau i gyflogwyr eraill neu drosglwyddo llawer o staff, cau i newydd-ddyfodiaid, diswyddiadau o bwys neu ddyfarniadau cyflog sylweddol, neu ffactorau eraill fel ymddeoliadau oherwydd afiechyd, tynnu'n ôl o wirfodd neu golli contract pwysig.
- perthnasedd unrhyw newid yn aelodaeth neu gyfrifoldebau ariannol y cyflogwr, gan ystyried barn yr Actiwari ar sut y gallai hyn effeithio ar ei sefyllfa ariannu neu ei gyfradd cyfraniadau sylfaenol neu eilaidd.
- a yw'r Awdurdod Gweinyddu, ar ôl cael cyngor gan yr Actiwari, yn credu bod newid parhaus

targed cyllido parhaus neu'r cyfnod adfer diffyg, er enghraifft, wrth ddarparu neu ddileu unrhyw sicrwydd, rhwymedigaeth wedi'i gogynnwys, bond, gwarant, neu fath arall ar indemniad mewn perthynas â chyfrifoldeb ariannol y cyflogwr yn y Gronfa.

- perthnasedd unrhyw newid yng nghadernid ariannol y cyflogwr neu ei ragolygon ariannol tymor hwy, yn seiliedig ar wybodaeth a gyflenwir gan y cyflogwr ac a gefnogir gan asesiad risg ariannol neu adolygiad cyfamod manylach a gynhaliwyd gan Actiwari'r Gronfa neu ymgynghorydd cyfamod arall i'r Gronfa.
- lefel gyffredinol ymgysylltiad y cyflogwr a'i ymlyniad wrth ei rwymedigaethau cyfreithiol fel y nodir yn y Datganiad Strategaeth Gweinyddu Pensiynau ac mewn mannau eraill, gan gynnwys natur ac amllder unrhyw ddiffyg cydymffurfio megis methu â thalu cyfraniadau yn brydlon a materion ansawdd data oherwydd methiant i ddarparu ffurflenni dechreuwyr newydd neu ymadawyr.

---

## Asesiad risg

Wrth benderfynu a ddylid cynnal adolygiad ai peidio, bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn canolbwyntio'n gyffredinol ar berthnasedd unrhyw newidiadau posibl yng nghyd-destun y cyflogwr dan sylw; ei sefyllfa ariannol a lefelau ei gyfraniadau cyfredol. Fel mater o egwyddor, dydy'r Awdurdod Gweinyddu ddim o'r farn nad oes modd cyfiawnhau adolygiad dim ond oherwydd bod cyflogwr yn fach yng nghyd-destun y Gronfa yn ei chyfanrwydd, gan nodi y gallai methu â gweithredu wneud trafodaethau ar y prisiad ffurfiol nesaf yn anoddach a gwaethygu'r risg i'r Gronfa. Serch hynny, wrth bennu maint a chyflymder unrhyw newidiadau i gyfraniadau'r cyflogwr, bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn ystyried yr effaith ar sefyllfa ariannu'r Gronfa yn gyffredinol, hynny yw, cyflogwyr eraill y Gronfa.

Pan fydd cyfraniadau'n cael eu hadolygu ar gyfer cyflogwr sydd â chysylltiadau â chyflogwr arall y Gronfa, yn enwedig lle mae hwn yn gyswllt sefydliadol neu contractiol ffurfiol, er enghraifft, lle mae cytundeb derbyn teiran, perthynas perchnogaeth neu warant ffurfiol neu ymrwymiad cynhwysiad ar waith, bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn ystyried risg/effaith bosibl yr adolygiad cyfraniadau ar y cyflogwr arall / cyflogwyr eraill, gan gymryd cyngor gan Actiwari'r Gronfa yn ôl yr angen.

---

## Ymgynghoriad

Yn y rhan fwyaf o achosion, disgwylir y bydd y cyflogwr yn effro i'r adolygiad arfaethedig o'u cyfraniadau gan y bydd hyn yn cael ei sbarduno gan weithred y cyflogwr a dylai cyflogwyr fod yn effro i'r angen i ymgysylltu â'r Awdurdod Gweinyddu mewn perthynas ag unrhyw weithgaredd a allai effeithio'n sylweddol ar eu cyfrifoldebau ariannol neu eu gallu i gwrdd â'r cyfrifoldebau hynny. Mae'r gofynion ar gyflogwyr i roi gwybod i'r Awdurdod Gweinyddu am rai digwyddiadau wedi'u nodi yn y Strategaeth Gweinyddu Pensiynau.

Mewn achosion eraill bydd angen gwybodaeth gan y cyflogwr, er enghraifft, mewn perthynas â'i sefyllfa ariannol a'i gynlluniau busnes a allai fod yn gatalydd ar gyfer hysbysu'r cyflogwr bod adolygiad yn cael ei gynig. Ym mhob achos bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn rhoi gwybod i'r cyflogwr bod adolygiad yn cael ei gynnal ac yn rhannu canlyniadau'r adolygiad ac unrhyw asesiad risg neu gyfamod fel y bo'n briodol. Dylid nodi nad yw'r ffaith bod adolygiad yn cael ei gynnal yn golygu'n awtomatig y bydd cyfraniadau'n cael eu diwygio (i fyny neu i lawr) gan y bydd hynny'n dibynnu ar berthnasedd y newidiadau a ffactorau eraill megis canlyniad trafodaethau gyda'r cyflogwr ac unrhyw gyflogwr cysylltiedig yn y Gronfa a pha mor agos mae'r prisiad ffurfiol nesaf.

Lle mae'r Awdurdod Gweinyddu yn ystyried peidio â chynyddu cyfraniadau'r cyflogwr yn dilyn adolygiad ac yn dilyn sylwadau gan y cyflogwr, er bod rheswm da dros wneud hynny o safbwynt cyllido ac actiwaraid, er enghraifft, pe bai'n achosi methiant y cyflogwr neu fel arall, amharu'n ddifrifol ar allu'r cyflogwr i gyflawni ei amcanion sefydliadol neu disgwylir y bydd sefyllfa ariannol y cyflogwr yn gwella'n sylweddol yn y tymor agos, byddai'r Awdurdod Gweinyddu yn ymgynghori ag unrhyw gyflogwr cysylltiedig (gan gynnwys unrhyw warantwr neu gyflogwr sy'n darparu rhwymedigaeth wedi'i gogynnwys) a, lle bo hynny'n briodol, y cyflogwyr mwyaf yn y Gronfa gyda'r bwriad o geisio eu cydsyniad i'r ymagwedd yma.

---

## Proses gofyn am adolygiad

Cyn gofyn am adolygiad, dylai cyflogwyr ystyried y gofynion rheoliadol a pholisi'r Gronfa fel y nodir uchod a bodloni eu hunain y bu newid perthnasol yn swm disgwyliedig y cyfrifoldebau ariannol neu eu gallu i gyflawni'r cyfrifoldebau hynny. Dylai'r cyflogwr gysylltu â Rheolwr y Gwasanaeth Pensiynau, [Catherine.black@rctcbc.gov.uk](mailto:Catherine.black@rctcbc.gov.uk) a chwblhau'r gwybodaeth angenrheidiol i'w chyflwyno i'r Awdurdod Gweinyddu i gefnogi ei gais.

Bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn ystyried cais y cyflogwr ac o bosibl bydd yn gofyn am ragor o wybodaeth neu



ddogfennau/tystiolaeth ategol yn ôl yr angen. Os yw'r Awdurdod Gweinyddu, ar ôl cymryd cyngor actiwaraid yn ôl yr angen, o'r farn bod cyfiawnhad dros gynnal adolygiad, bydd yn cynghori'r cyflogwr ac yn darparu cost ddangosol. Dylai cyflogwyr gofio y bydd yr holl gostau cynghori y mae'r Gronfa yn mynd iddyn nhw sy'n gysylltiedig â chais am adolygiad cyfraniadau, p'un a yw hyn yn arwain at newid cyfraniadau ai peidio, yn cael eu hail-godi i'r cyflogwr.

---

## Ystyriaethau eraill

Gall yr Awdurdod Gweinyddu gynnal adolygiad cyfrannol ar unrhyw adeg yn ystod y cylch prisio lle mae'n dod i wybod bod angen adolygiad. Mewn achosion o'r fath bydd disgwyl i'r cyflogwr ddarparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani o fewn mis i'r cais a bydd yr adolygiad yn cael ei gwblhau cyn pen 6 wythnos ar ôl darparu'r holl wybodaeth y gofynnwyd amdani, neu ar ôl cwblhau'r asesiad risg/cyfamod os yw hynny'n ddiweddarach.

Bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn ymgynghori â'r cyflogwr ar amseriad unrhyw newidiadau i gyfraniadau a bydd o leiaf 4 wythnos o rybudd yn cael ei roi o unrhyw gynnydd mewn cyfraniadau. Wrth benderfynu a fydd unrhyw newidiadau i gyfraniadau yn dod i rym a phryd, bydd yr Awdurdod Gweinyddu hefyd yn ystyried amseriad y newidiadau i gyfraniadau sy'n llifo o'r prisiad ffurfiol nesaf. O ganlyniad, mae'n annhebygol y bydd adolygiadau o gyfraniadau yn cael eu cynnal yn ystod y cyfnod o 12 mis o'r dyddiad prisio, ond pe bai unrhyw newidiadau sylweddol i swm disgwyledig y cyfrifoldebau ariannol neu allu'r cyflogwr i gyflawni'r cyfrifoldebau hynny yn ystod y cyfnod hwnnw, byddai hyn yn cael ei ystyried wrth gwblhau'r Dystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau sy'n llifo o'r prisiad.

---



**Gweithd  
refn  
Cyflwyn  
o Apêl**

---

Rhaid i unrhyw apêl Cyflogwr yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod Gweinyddu gael ei wneud yn ysgrifenedig i'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiwn, Caffael a Thrafodion cyn pen 6 mis ar ôl cael gwybod am y penderfyniad.

Bydd apêl yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyflogwr roi tystiolaeth o un o'r canlynol:

- gwyro oddi wrth y polisi neu broses a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod Gweinyddu, neu
  - unrhyw wybodaeth arall (neu ddehongliad o'r wybodaeth a ddarperir) a allai ddylanwadu ar y canlyniad, gan nodi bydd tystiolaeth newydd yn cael ei hystyried yn ôl disgrisiwn yr Awdurdod Gweinyddu.
- 



## ADRAN 7:

### Rhoi taliadau ymadael fesul tipyn o dan Reoliad 64B

#### Rhoi taliadau ymadael fesul tipyn

Pan fydd taliad ymadael yn ddyledus, oni bai fod Cytundeb Gohirio Dyled yn cael ei wneud, polisi'r Awdurdod Gweinyddu yw ei gwneud yn ofynnol i gael cyfandaliad unwaith ac am byth sy'n hafal i'r diffyg ymadael. Serch hynny, mewn rhai amgylchiadau efallai bydd modd i gyflogwyr ofyn bod y taliad ymadael yn cael ei roi fesul tipyn ar sail fforddiadwyedd. Mae polisi'r Awdurdod Gweinyddu ar roi taliadau ymadael fesul tipyn fel y caniateir gan Reoliad 64B wedi'i nodi isod:

Rhagwelir y bydd rhoi taliadau ymadael fesul tipyn yn cael ei ystyried dim ond ar gais cyflogwr. Yna bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn ymgysylltu/ymgynggori â'r cyflogwr i ystyried ei gais a phenderfynu a yw rhoi'r taliad ymadael fesul tipyn yn briodol ai peidio a phennu'r telerau a ddylai fod yn berthnasol.

#### Proses a ffactorau a ystyrir

Wrth benderfynu a ddylid caniatáu i daliad ymadael gael ei dalu fesul tipyn ai peidio, bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn ystyried ffactorau gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- gallu'r cyflogwr i wneud un taliad cyfalaf;
- a oes unrhyw sicrwydd ar waith, gan gynnwys arwystl dros asedau, bond, gwarant neu indemniad arall;
- a yw'r adferiad cyffredinol i'r Gronfa yn debygol o fod yn uwch os caniateir rhoi'r taliad ymadael fesul tipyn.

Wrth benderfynu ar allu'r cyflogwr i wneud un taliad bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn ceisio cyngor actiwaraid, cyfamod neu gyfreithiol yn ôl yr angen. Pan fydd yr Awdurdod Gweinyddu o'r farn bod y cyflogwr yn gallu gwneud un taliad cyfalaf yn ariannol, fydd hi ddim yn briodol fel rheol i'r taliad ymadael gael ei roi fesul tipyn.

Bydd yn ofynnol i'r cyflogwr ddarparu manylion am ei sefyllfa ariannol, ei gynlluniau busnes a'i ragolygon ariannol a pha wybodaeth bynnag arall sy'n ofynnol gan yr Awdurdod Gweinyddu er mwyn iddo benderfynu a ddylid caniatáu i'r taliad ymadael gael ei roi fesul tipyn ai peidio. Rhaid darparu'r wybodaeth yma cyn pen 2 fis ar ôl gwneud cais.

Wrth benderfynu ar yr amser priodol ar gyfer rhoi taliad ymadael fesul tipyn, bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn ystyried fforddiadwyedd y rhandaliadau gan ddefnyddio gwahanol gyfnodau talu ar gyfer y cyflogwr. Y cyfnod talu fesul tipyn rhagosodedig fydd tair blynedd ond bydd cyfnodau hwy o hyd at ddeng mlynedd yn cael eu hystyried lle mae'r Awdurdod Gweinyddu yn



fodlon nad yw hyn yn peri risg gormodol i'r Gronfa mewn perthynas â gallu'r cyflogwr i barhau i wneud taliadau dros y cyfnod.

Er mai dewis yr Awdurdod Gweinyddu fyddai i gyflogwr ofyn am roi unrhyw daliad ymadael fesul tipyn cyn y dyddiad ymadael, cydnabyddir y gall penderfyniad terfynol gan y cyflogwr (a'r Awdurdod Gweinyddu) ynglŷn ag a fydd hyn o fudd ariannol/priodol fod yn amhosibl nes bod y cyflogwr wedi ymadael. Bydd cyflogwyr sy'n ymadael yn cael gwybod am y diffyg wrth ymadael ac y bydd rhoi taliad fesul tipyn yn cael ei ystyried ar gais y cyflogwr yn unig. Pan fydd gwarantwr, ymgynghorir ag yntau/hithau hefyd a gall unrhyw gytundeb i dalu'r diffyg wrth ymadael fesul tipyn fod yn amodol ar i'r warant barhau mewn grym yn ystod y cyfnod talu.

Yn gyffredinol, bydd swm y rhandaliadau sy'n ddyledus o dan gytundeb talu diffyg wrth ymadael fesul tipyn yn cael ei gyfrifo fel symiau blynyddol lefel sy'n caniatáu ar gyfer llog dros y cyfnod talu fesul tipyn yn unol â'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir i gyfrifo'r cyfrifoldebau ariannol wrth ymadael. Pan fo'r swm ymadael yn sylweddol, efallai y bydd angen taliadau misol neu daliad cychwynnol uwch ar yr Awdurdod Gweinyddu gyda thaliadau blynyddol is wedi hynny i leihau'r risg i'r Gronfa.

Bydd modd gwneud trefniadau talu amgen mewn amgylchiadau eithriadol cyhyd â bod yr Awdurdod Gweinyddu yn fodlon nad ydyn nhw'n cynyddu'r risg i'r Gronfa yn sylweddol.

---

## **Cytundeb, costau ac adolygu**

Lle mae taliad ymadael fesul tipyn wedi'i gytuno, bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn rhoi gwybod ysgrifenedig i'r cyflogwr am y trefniant, gan gynnwys y cyfnod talu fesul tipyn; y taliadau blynyddol sy'n ddyledus; y cyfraddau llog perthnasol; costau eraill sy'n daladwy a chyfrifoldebau'r cyflogwr yn ystod y cyfnod talu fesul tipyn. Lle gwrthodir cais i roi taliad ymadael fesul tipyn, bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn cynghori'r cyflogwr yn ysgrifenedig ac yn rhoi esboniad byr o'r rhesymeg dros y penderfyniad.

\*Gofynnir i gyflogwyr dalu'r holl gostau ymgynghori sy'n gysylltiedig â'r cytundeb talu fesul tipyn yn ogystal â chyfrifo'r diffyg wrth ymadael (fydd y costau yma ddim yn cael eu talu fesul tipyn).

Yn gyffredinol, bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn adolygu cytundebau talu fesul tipyn yn rhan o'i baratoi ar gyfer pob prisiad teirblwydd a bydd yn cymryd cyngor actiwaraid, cyfamodol, cyfreithiol a chynghor arall yn ôl yr angen. Yn ogystal â hynny, bydd disgwyl i gyflogwyr ymgysylltu â'r Awdurdod Gweinyddu yn ystod y cyfnod talu fesul tipyn a chadw at y fframwaith achlysuron hysbysadwy fel y nodir yn y Strategaeth Gweinyddu Pensiynau.



Os oes gan yr Awdurdod Gweinyddu reswm i gredu bod amgylchiadau'r cyflogwr wedi newid fel bod adolygiad o'r cyfnod talu fesul tipyn (ac felly'r symiau talu) yn briodol, bydd yn ymgynghori â'r cyflogwr a gall amserlen dalu ddiwygiedig gael ei rhoi ar waith. Er y gall yr adolygiad yma hefyd ystyried amllder taliadau, dylid nodi na ragwelir y bydd unrhyw adolygiad yn ystyried newidiadau i'r swm ymadael gwreiddiol na'r gyfradd llog sy'n berthnasol. Bydd cyflogwr yn gallu cyflawni ei rwymedigaethau o dan y trefniant talu fesul tipyn trwy dalu pob rhandaliad yn y dyfodol yn ôl ei ddisgresiwn. Bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn ceisio cyngor actiwaraid i weld a ddylai fod gostyngiad am daliad cynnar ai peidio, o ystyried y bydd llog wedi'i ychwanegu yn unol â'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddiwyd ar gyfer y prisiad ymadael.

---

## ADRAN 8:

### Cytundebau Gohirio Dyled o dan Reoliad 64 (7A)

#### Cytundebau Gohirio Dyled

Pan fydd cyflogwr yn peidio â bod ag unrhyw aelodau gweithredol neu y byddai fel arall yn dod yn gyflogwr sy'n ymadael, gall ofyn i'r Awdurdod Gweinyddu ymrwymo i Gytundeb Gohirio Dyled fel y caniateir gan Reoliad 64 (7A) a dod yn gyflogwr gohiriedig.

Mae polisi'r Awdurdod Gweinyddu mewn perthynas â Rheoliad 64(7A) yn cael ei nodi isod.

#### Ffactorau a ystyrir

Wrth benderfynu a ddylid ymrwymo i Gytundeb Gohirio Dyled gyda chyflogwr ai peidio, bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn ystyried y ffactorau sy'n cynnwys y canlynol (dydy'r rhestr yma ddim yn gynhwysfawr):

- perthnasedd y cyflogwr ac unrhyw ddiffyg wrth ymadael o ran y Gronfa gyfan;
- y risg i'r Gronfa o ymrwymo i Gytundeb Gohirio Dyled, o ran y tebygolrwydd y bydd y cyflogwr yn methu cyn i'r Cytundeb ddod i ben, yn seiliedig ar wybodaeth a ddarperir gan y cyflogwr ac a gefnogir gan asesiad risg ariannol neu adolygiad cyfamod manylach a gynhelir gan y Actiwari'r Gronfa neu ymgynghorydd cyfamod arall
- y sail resymegol i'r cyflogwr ofyn am Gytundeb Gohirio Dyled, yn enwedig os yw'r Awdurdod Gweinyddu yn credu y byddai'r cyflogwr yn gallu gwneud taliad ar unwaith i dalu am y diffyg yn y taliad ymadael; a
- p'un a fydd taliad ymlaen llaw yn cael ei wneud tuag at y diffyg, a/neu a oes unrhyw sicrwydd yn cael (neu a all gael) ei roi ar waith, gan gynnwys arwystl dros asedau, bond, gwarant neu indemniad arall, i leihau'r risg i gyflogwyr eraill.

Lle disgwylir y gall cyfamod y cyflogwr wanhau'n sylweddol dros amser, mae'n annhebygol iawn y bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn ystyried ymrwymo i Gytundeb Gohirio Dyled gyda'r cyflogwr hwnnw. Yn fwy na hynny, lle mae modd i gyflogwr ddangos ei fod yn gallu talu mewn un taliad cyfan, byddai Awdurdod Gweinyddu yn annhebygol o ymrwymo i Gytundeb Gohirio Dyled oni bai ei bod yn amlwg na fyddai hyn yn cynyddu'r risg i'r Gronfa, er enghraifft, pe bai'r cyflogwr yn cael cefnogaeth lawn gan y trethdalwr a phe bai digon o sicrwydd ar waith bod yr holl gyfraniadau sy'n ddyledus, gan gynnwys unrhyw ddiffyg gweddilliol ar ddiwedd y Cytundeb Gohirio Dyled, yn cael eu talu'n llawn.



## Proses, cytundeb, costau ac adolygu

Rhagwelir yr ymrwymir i Gytundebau Gohirio Dyled ar gais cyflogwr yn unig. Ym mhob achos, bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn ymgysylltu/ymgynghori â'r cyflogwr i benderfynu a yw Cytundeb Gohirio Dyled yn briodol ai peidio a phennu'r telerau a ddylai fod yn berthnasol. Fel rhan o'i gais am Gytundeb Gohirio Dyled, bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn gofyn am wybodaeth gan y cyflogwr i'w alluogi i bwysu a mesur cadernid cyfamod y cyflogwr. Bydd angen gwybodaeth yn barhaus hefyd er mwyn monitro cadernid ariannol / cyfamod y cyflogwr. Disgwylir y bydd y Cytundebau Gohirio Dyled yn cael eu monitro'n flynyddol oni bai fod amgylchiadau'n mynnu fel arall. Gall y broses monitro ddigwydd yn amlach wrth i ddiwedd cyfnod y Cytundeb Gohirio Dyled agosáu.

Dylai cyflogwyr gofio y bydd yr holl gostau cynghori y mae'r Gronfa yn mynd iddyn nhw sy'n gysylltiedig â chais am Gytundeb Gohirio Dyled, p'un a yw hyn yn arwain at ymrwymo i gytundeb ai peidio, yn cael eu hail-godi i'r cyflogwr.

Bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn darparu cytundeb safonol ar gyfer Cytundebau Gohirio Dyled, y bydd yn gofyn i gyflogwyr (ac unrhyw warantwyr) ymrwymo iddo. Dyma rai materion yr ymdrinnir â nhw gan yr Awdurdod Gweinyddu yn y Cytundeb Gohirio Dyled:

- ymrwymiad gan y cyflogwr i fodloni holl ofynion cyflogwyr y Cynllun, gan gynnwys talu cyfradd eilaidd y cyfraniadau, ond heb gynnwys y gofyniad i dalu'r gyfradd sylfaenol;
- gofyniad i'r Cytundeb Gohirio Dyled aros mewn grym am gyfnod penodol, y mae modd ei amrywio trwy gytundeb yr Awdurdod Gweinyddu a'r cyflogwr gohiriedig ar yr amod nad yw'r cyfnod cyfan yn fwy na 10 mlynedd;
- gofyniad i'r Cytundeb Gohirio Dyled ddod i ben ar y dyddiad cyntaf y bydd un o'r canlynol yn digwydd:
  - (a) mae'r cyflogwr gohiriedig yn ymrestru aelodau gweithredol newydd;
  - (b) mae'r cyfnod sydd wedi'i bennu/amrywio yn dod i ben;
  - (c) mae'r cyflogwr gohiriedig yn uno, yn mynd yn fethdalwr, mae'r cwmni yn dirwyn i ben neu'n mynd i'r wal neu mae cwmni arall yn cymryd drosodd;
  - (d) mae'r Awdurdod Gweinyddu yn cyflwyno rhybudd i'r cyflogwr gohiriedig ei fod yn rhesymol fodlon bod gallu'r cyflogwr gohiriedig i gyflawni'r cyfraniadau sy'n daladwy o dan y trefniant gohirio dyled wedi gwanhau'n sylweddol neu'n debygol o wanhau'n sylweddol yn ystod y 12 mis nesaf; neu
  - (e) mae Actiwari'r Gronfa yn asesu bod y cyflogwr



gohiriedig  
wedi talu  
digon o  
gyfraniadau  
eilaidd i dalu'r



taliad ymadael a fyddai wedi bod yn ddyledus pe bai'r cyflogwr wedi bod yn gyflogwr sy'n gadael ar y dyddiad cyfrifo.

- cyfrifoldebau'r cyflogwr gohiriedig
- yr amgylchiadau sy'n sbarduno dod â'r trefniant i ben gan arwain at daliad ymadael (neu gredyd) yn dod yn daladwy, yn ychwanegol at y rhai a nodir yn Rheoliad 64 (7E) ac uchod

Disgwylir y bydd y broses ymgynghori gyda'r cyflogwr yn cynnwys trafodaethau ar union fanylion y Cytundeb Gohirio Dyled, er mai pwrpas darparu math safonol o gytundeb yw gwneud y broses yn haws ac yn gyflymach ac felly ni ragwelir y bydd newidiadau materol i'r safon.

Bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn monitro'r sefyllfa ariannu a'r risg/cyfamod sy'n gysylltiedig â chyflogwyr gohiriedig yn rheolaidd. Bydd hyn o leiaf bob tair blynedd ac yn fwy na thebyg, yn flynyddol, ond bydd yr amllder yn dibynnu ar ffactorau megis maint y cyflogwr ac unrhyw ddiffyg a pherthnasedd symudiadau yn amodau'r farchnad neu aelodaeth y cyflogwr.

Dyma rai o'r amgylchiadau lle gall yr Awdurdod Gweinyddu ystyried ceisio cytuno ar amrywiad i hyd y cytundeb o dan reoliad 64 (7D):

- lle mae'r diffyg ymadael wedi lleihau (cynyddu) fel ei bod yn rhesymol lleihau (ymestyn) hyd y cyfnod adfer a chyfnod cysylltiedig y Cytundeb Gohirio Dyled, gan dybio, yn achos yr olaf, nad yw hyn yn cynyddu'r risg i'r cyflogwyr eraill / i'r Gronfa.
- lle mae cynlluniau busnes, lefelau staffio, cyllid neu gyllid rhagamcanol y cyflogwr gohiriedig wedi newid yn sylweddol, ond, yn achos dirywiad, dydy'r Awdurdod Gweinyddu, ar ôl cymryd cyngor cyfreithiol, actiwaraid, cyfamod neu gyngor arall fel y bo'n briodol, ddim yn ystyried bod tystiolaeth ddigonol bod gallu cyflogwr gohiriedig i gwrdd â'r cyfraniadau sy'n daladwy o dan y Cytundeb Gohirio Dyled wedi gwanhau'n sylweddol, neu'n debygol o wanhau'n sylweddol yn ystod y 12 mis nesaf
- lle mae lefel y sicrwydd sydd ar gael i'r Gronfa wedi newid mewn perthynas â'r Cytundeb Gohirio Dyled, fel y penderfynir gan yr Awdurdod Gweinyddu, gan gymryd cyngor cyfreithiol, actiwaraid neu gyngor arall fel sy'n briodol

Ymhob prisiad teirblwydd, neu'n amlach yn ôl yr angen, bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn cynnal dadansoddiad o risg ariannol neu gyfamod y cyflogwr gohiriedig, gan ystyried cyngor actiwaraid, cyfamod, cyfreithiol a chyngor arall



yn ôl yr angen. Pan gefnogir ef gan y dadansoddiad ac yr ystyrir ei fod yn angenrheidiol i amddiffyn buddiannau pob cyflogwr, bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn cyflwyno rhybudd i'r cyflogwr gohiriedig y bydd y Cytundeb Gohirio Dyled yn terfynu ar y sail ei fod yn rhesymol fodlon bod gallu'r cyflogwr gohiriedig i gyflawni'r cyfraniadau sy'n daladwy o dan y trefniant gohirio dyled wedi gwanhau'n sylweddol, neu'n debygol o wanhau'n sylweddol yn ystod y 12 mis nesaf, fel y nodir o dan reoliad 64(7E)(d).

Dylai cyflogwyr gofio y bydd yr holl ffioedd cynghori a dynnir gan y Gronfa sy'n gysylltiedig ag ystyried Cytundeb Gohirio Dyled ar gyfer cyflogwr sy'n ymadael, p'un a yw hyn yn arwain at ymrwymiad Gohirio Dyled ai peidio, yn cael eu hail-godi i'r cyflogwr. Bydd hyn yn cynnwys cyngor actiwaraid, cyfreithiol, cyfamod a chyngor arall a chostau monitro'r trefniant yn ogystal â'r broses sefydlu gychwynnol. Mae modd darparu costau amcangyfrifedig ar gais. Rhaid talu'r holl ffioedd ymlaen llaw a fydd dim modd eu hychwanegu at unrhyw gyfraniadau eilaidd sy'n daladwy o dan y Cytundeb Gohirio Dyled.

Disgwylir y bydd cyflogwyr yn gwneud cais i ystyried Cytundeb Gohirio Dyled cyn y bydden nhw fel arall wedi ymadael â'r Gronfa o dan Reoliad 64(1) ac y dylid ymrwymo i Gytundeb Gohirio Dyled o fewn 3 mis i'r dyddiad hwnnw. Dylai'r cyflogwr barhau i wneud cyfraniadau eilaidd ar y gyfradd gyffredinol tra bydd y Cytundeb Gohirio Dyled yn cael ei ystyried oni bai fod yr Awdurdod Gweinyddu, ar ôl cymryd cyngor actiwaraid a chyngor arall fel y bo'n briodol, yn penderfynu y dylai cyfraniadau uwch fod yn daladwy. Mewn amgylchiadau eithriadol, er enghraifft, lle bu oedi roedd modd ei gyfiawnhau oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth y cyflogwr, ac yn ôl disgresiwn llwyr yr Awdurdod Gweinyddu, bydd modd ymrwymo i Gytundeb Gohirio Dyled ar ôl 3 mis ar ôl y dyddiad ymadael.

Disgwylir i gyflogwyr gohiriedig ymgysylltu â'r Awdurdod Gweinyddu yn ystod cyfnod y Cytundeb Gohirio Dyled a chadw at y fframwaith digwyddiadau hysbysadwy fel y'i nodir yn y Strategaeth Gweinyddu Pensiynau yn ogystal â darparu gwybodaeth ariannol a gwybodaeth arall yn rheolaidd. Bydd hyn yn angenrheidiol i gefnogi monitro'r trefniant yn effeithiol a bydd yn ofyniad y Cytundeb Gohirio Dyled.

---

## ADRAN 9:

### Nodi risgiau a gwrth-fesurau

#### Ymagwedd

Mae'r Awdurdod Gweinyddu yn ceisio nodi pob risg i'r Gronfa ac yn ystyried y sefyllfa o safbwynt pawb sy'n rhan ohoni yn ogystal â'r lefel risg i'r unigolyn. Y risgiau sydd fwyaf tebygol o effeithio ar y strategaeth ariannu yw risg buddsoddiadau, risg cyfrifoldebau ariannol, risg diddymu/adeg aeddfedu, risg reoliadol/cydymffurfio, risg cyflogwyr a risg llywodraethu.

Bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn monitro'r risgiau i'r Gronfa ac yn cymryd camau priodol i gyfyngu ar effaith y rhain cyn (ac ar ôl) iddyn nhw ddod i'r fei. Bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn sicrhau bod risgiau ariannu yn cael eu cynnwys yn ei fframwaith a strategaeth rheoli risg canolog/ganolog, gan gysylltu â'i gofrestr risg a'i bolisi rheoli risg fel sy'n briodol. Bydd pennu swyddogaeth i Fwrdd Lleol y Gronfa Bensiwn yn rhan o'r fframwaith yma.

#### Risg Buddsoddi

Mae hyn yn cwmpasu eitemau megis cyflawniad marchnadoedd ariannol a rheolwyr buddsoddi'r Gronfa, ail-ddyrannu asedau mewn marchnadoedd anwadal, gan arwain at y risg o fuddsoddiadau sydd ddim yn cyflawni (incwm) neu gynyddu mewn gwerth (twf) yn ôl y rhagolygon. Dyma enghreifftiau o'r risgiau penodol:

- asedau sydd ddim yn rhoi'r enillion gofynnol (am ba reswm bynnag, gan gynnwys tangyflawniad rheolwyr)
- risg systemig gyda'r posibilrwydd o anwadalrwydd marchnad ariannol rhyng-gysylltiedig a chydamserol
- cyllid annigonol i gwrdd â chyrfifoldebau ariannol wrth iddyn nhw ddod yn ddyledus
- mae cyngor actiwaraid annigonol, anaddas neu anghyflawn yn cael ei roi a'i weithredu
- methiant y parti arall.

Dyma'r risgiau penodol sy'n gysylltiedig ag asedau a dosbarthiadau ased:

- soddgyfrannau – diwydiant, gwlad, maint a risgiau stoc
- incwm sefydlog – cromlin elw, risgiau credyd, risgiau hyd a risgiau'r farchnad
- asedau amgen – risgiau diddymu, risg eiddo, risg alffa
- marchnad arian – risg credyd a risg diddymu
- risg arian breiniol
- risgiau macro economaidd.
- amgylcheddol; risgiau cymdeithasol a llywodraethu corfforaethol

Mae'r Gronfa'n lliniaru'r risgiau hyn drwy arallgyfeirio, caniatáu buddsoddiad mewn amrywiaeth eang o



farchnadoedd ac



asedau, a thrwy ddefnyddio rheolwyr arbenigol gyda mandadau gwahanol, sy'n cynnwys amrywiaeth o reolwyr o fewn cronfa fuddsoddi Partneriaeth Pensiwn Cymru, yn ogystal â'r garfan rheoli buddsoddiadau mewnol, sydd ag amrywiaeth eang o brofiad ymhlith ei aelodau.

Mae cyflawniad marchnadoedd a rheolwyr yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan y Panel Cynghori ar Fuddsoddi a Gweinyddu, sydd â'r sgiliau a'r hyfforddiant priodol sy'n ofynnol i ymgymryd â'r dasg yma.

### **Newid yn yr hinsawdd**

Bydd y risgiau systemig sy'n cael eu hachosi gan newid yn yr hinsawdd a'r polisïau sy'n cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â nhw, yn anad dim, yn newid y systemau economaidd, gwleidyddol a chymdeithasol a'r system ariannol fyd-eang. Byddan nhw'n effeithio ar bob dosbarth ased, sector, diwydiant a marchnad mewn gwahanol ffyrdd ac ar adegau gwahanol, gan greu risgiau yn ogystal â chyfleoedd i fuddsoddwyr.

Mae'r Awdurdod Gweinyddu a'r Panel Cynghori ar Fuddsoddi a Gweinyddu yn monitro effaith newid hinsawdd ar enillion y dyfodol yn gyson, a bydd yn comisiynu modelu neu gyngor gan Actiwari'r Gronfa ar yr effaith bosibl ar gyllid yn ôl yr angen.

Mae'r Awdurdod Gweinyddu wedi comisiynu modelu dadansoddi senario ar yr effaith bosibl ar gyllid gan Actiwari'r Gronfa a fydd yn cael ei adrodd yn adroddiad prisiad 2022. Disgwylir i'r modelu yma fodloni gofynion Adran Actiwari'r Llywodraeth ar gyfer prisiadau 2022 yn ogystal â chefnogi adroddiadau'r Gronfa o dan drefn newydd arfaethedig Yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (DLUCH) ar gyfer Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n ymwneud â'r Hinsawdd (TCFD) ar gyfer cronfeydd CPLIL.

### **Risg cyfrifoldebau ariannol**

Mae'r prif risgiau yn cynnwys cyfraddau disgownt, chwyddiant prisiau, patrymau ymddeol newidiol, marwolaethau a risgiau demograffig eraill. Bydd rhai o'r risgiau yma'n effeithio ar swm taliadau'r buddion; bydd eraill yn effeithio ar werth taliadau buddion, hynny yw lefel yr asedau y bernir eu bod yn ofynnol i fodloni taliadau'r buddion hynny (y targed ariannu).

Bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn sicrhau y bydd Actiwari'r Gronfa yn ymchwilio i ddemograffig a'r cynnydd mewn cyflogau a phensiwn ar bob prisiad, ac yn adrodd ar y datblygiadau. Bwriedir bod y tybiaethau demograffig yn amcangyfrifon gorau, wedi'u llywio gan brofiad y Gronfa a thystiolaeth ehangach lle mae angen hynny, er enghraifft, mae'r tybiaethau yn ymwneud â marwolaethau yn cael eu llywio gan ddadansoddiadau cod post sy'n cael eu cynnal



gan garfan hirhoedledd arbenigol Actiwar'r Gronfa, a'r model rhagamcaniadau wedi'i ryddhau gan Astudiaeth Barhaus o Farwolaethau y Sefydliad a Chyfadrn yr Actiwariaid. Os daw'r Awdurdod Gweinyddu yn effro i unrhyw newidiadau sylweddol mewn marwolaethau ymysg y boblogaeth a all hefyd gael eu hadlewyrchu ym

mhrofiad y Gronfa, bydd yn gofyn i Actiwari'r Gronfa adrodd ar yr effaith ar y sefyllfa ariannu a chyfraniadau cyflogwyr.

Bydd Actiwari'r Gronfa hefyd yn darparu diweddariadau ariannu chwarterol i gynorthwyo'r Awdurdod Gweinyddu ynglŷn â monitro'r risgiau o ran cyfrifoldebau ariannol. Bydd yr Awdurdod Gweinyddu, os yw hyn yn ymarferol, yn monitro newidiadau ym mhroffil oedran aelodau'r Gronfa sy'n ymddeol yn gynnar, ac os ystyrir bod unrhyw newidiadau yn rhai pwysig, yn gofyn i Actiwari'r Gronfa adrodd ar eu heffaith ar y sefyllfa ariannu a chyfraniadau cyflogwyr.

Bydd lwfans yn cael ei roi ar gyfer lefelau uchel cyffredinol chwyddiant prisiau defnyddwyr wrth gyfrifo'r cyfrifoldebau ariannol ar gyfer prisiad 2022 fel y nodir yn Atodiad 1.

Os bydd newidiadau pwysig o ran gwerth y cyfrifoldebau ariannol yn dod i'r fei rhwng y prisiadau, gan gynnwys chwyddiant uwch na'r lefelau sy'n cael eu caniatáu ym mhrisiad 2022, bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn rhoi gwybod i'r cyflogwyr sy'n cael eu heffeithio am yr effaith sy'n cael ei rhagweld ar y costau a fydd yn dod i'r amlwg ar y prisiad nesaf ac yn ystyried a ddylid gofyn am adolygiad o'r bondiau sydd yn eu lle ar gyfer Corff Derbyniedig. Bydd e hefyd yn ystyried i ba raddau y caiff, neu y dylai, newidiadau o'r fath gael eu hystyried mewn prisiadau gadael, gan fynnu cyngor gan Actiwari'r Gronfa.

Os ydy hi'n ymddangos yn debygol i'r Awdurdod Gweinyddu bod nifer y cyfrifoldebau ariannol sy'n codi neu'n debygol o godi wedi newid yn sylweddol ers y prisiad diwethaf, gall yr Awdurdod Gweinyddu ystyried adolygu cyfraniadau cyflogwr fel y caniateir gan Reoliad 64A. Mae manylion polisi'r Awdurdod Gweinyddu wedi'u nodi yn Adran 6.

### **Risg Diddymu ac Aeddfedrwydd**

Y risg o ostyngiad yn y llifoedd arian i mewn i'r Gronfa yw hon, neu gynydd yn y llifoedd arian sy'n mynd allan o'r Gronfa, neu'r ddau, a all fod yn gysylltiedig â newidiadau o ran yr aelodaeth ac, yn benodol, newid o ran y cydbwysedd rhwng aelodau sy'n cyfrannu ac aelodau sy'n codi'u pensiynau. Gall newidiadau yn y sefyllfa ariannu ac felly, yng nghyfraniadau'r cyflogwyr (eilaidd) effeithio ar y llif arian hefyd oherwydd nad yw hi'n bosibl sicrhau sefydlogrwydd llwyr o ran y cyfraniadau bob amser. Gall newidiadau o fewn y sector cyhoeddus ac i'r CPLIL ei hun effeithio ar broffil aeddfedrwydd y CPLIL a bod â goblygiadau llif arian posibl. Er enghraifft,

- gall toriadau yn y gyllideb a gostyngiad yn nifer y bobl leihau'r aelodaeth weithredol (aelodau sy'n cyfrannu) a chodi nifer y pensiynwyr sy'n ymddeol yn gynnar;



- gall pwyslais cynyddol ar allanoli a modelau amgen eraill ar gyfer darparu gwasanaethau arwain at

ostyngiad mewn aelodaeth weithredol (e.e. pan fydd derbyniadau newydd yn cael eu cau neu pan fydd cyflogwyr cofrestredig yn sefydlu cwmnïau perchnogaeth llwyr sydd ddim yn cymryd rhan lawn yn y CPLIL),

- gall ad-drefnu yn y sector cyhoeddus arwain at drosglwyddo cyfrifoldebau rhwng gyrff sector cyhoeddus gwahanol, (er enghraifft, i gyrff sydd ddim yn cymryd rhan yn y Gronfa neu'r CPLIL),
- gall cyfraddau cyfraniadau is gan aelodau neu newid yn y bandiau cyfraniadau, y cytunwyd arnynt yn rhan o'r Broses Rheoli Costau neu fel arall, arwain at incwm cyfraniadau is os nad yw cyfraniadau cyfatebol yn cael eu cynnig gan y cyflogwr ar unwaith.
- bydd cynnydd yn nifer y bobl sy'n dewis peidio â rhoi a'r nifer sy'n manteisio ar yr opsiwn 50/50 (boed hynny ar sail pa mor fforddiadwy yw e, er gellir ei hystyried ar hyn o bryd yn risg uwch oherwydd pwysau costau byw presennol) yn lleihau cyfraniadau aelodau i'r Gronfa,
- gall gwelliant mewn sefyllfaoedd ariannu arwain at ostyngiad yn cael ei wneud mewn cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr.

Mae'r Awdurdod Gweinyddu yn ceisio cynnal cysylltiad rheolaidd â'r cyflogwyr er mwyn lliniaru'r risg o newidiadau annisgwyl neu newidiadau sydd ddim yn cael eu rhagweld mewn aeddfedrwydd neu newidiadau eraill sy'n arwain at heriau sy'n ymwneud â llif arian neu ddiddymu. Mae'r Awdurdod Gweinyddu hefyd yn comisiynu Actiwari'r Gronfa i ddarparu rhagamcaniadau o'r taliadau buddion a'r cyfraniadau ar bob prisiad ac yn monitro'r sefyllfa llif arian yn gyson.

### **Risg rheoliadol a chydymffurfio**

Mae risgiau rheoliadol i'r cynllun yn digwydd pan fydd newidiadau i reoliadau cyffredinol a rheoliadau sy'n benodol i'r CPLIL, trethu, newidiadau gwladol i ofynion pensiwn, neu gyfraith cyflogaeth.

Mae rhywfaint o ansicrwydd sy'n gysylltiedig â'r strwythur budd-daliadau ar adeg yr adolygiad diweddaraf ffurfiol o'r Datganiad yma, gan gynnwys:

- Amseriad a darpariaethau unrhyw reoliadau terfynol mewn ymateb i achosion McCloud/Sargeant a ddyfarnodd fod yr amddiffyniadau trosiannol a weithredwyd yng Nghynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân a'r Barnwyr yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon ar sail oed ac sydd â goblygiadau i'r cyflog terfynol sy'n sail i'r CPLIL.
- Deilliant y broses rheoli costau ar 31 Mawrth 2020 (a'r Adolygiad Barnwrol o broses 2016)



Mae manylion y mesurau diogelu yn erbyn colled o ran yr ansicrwydd yma ym mhrisiad 2022 wedi'u nodi yn Atodiad 1.

Yn achos Goodwin, dyfarnodd Tribiwnlys Cyflogaeth (mewn perthynas â Chynllun Pensiwn Athrawon) bod darpariaethau buddion yn llai ffafriol i fenyw a sy'n goroesi

mewn priodas â dyn, o gymharu â menyw mewn priodas o'r un rhyw neu bartneriaeth sifil, a bod hynny'n gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol ar sail cyfeiriadedd rhywiol. Yn dilyn datganiad gweinidogol ysgrifenedig gan brif ysgrifennydd y Trysorlys ar 20 Gorffennaf 2020 mae disgwyl y bydd newidiadau yn cael eu gwneud i Reoliadau'r CPLIL i adlewyrchu'r dyfarniad, ond ni chynigiwyd unrhyw newidiadau eto.

Mae nifer o ymgynghoriadau sydd wedi'u cyhoeddi yn ystod y blynyddoedd diwethaf y mae rhai ohonyn nhw'n cynrychioli newidiadau arfaethedig a gafodd eu codi yn gyntaf nifer o flynyddoedd yn ôl. Mae'r rhain yn cynnwys rhoi cap ar daliadau gadael gan gyflogwyr sector cyhoeddus a threfniadau Barga Deg. Gall rhai o'r rhain effeithio ar yr ariannu ac achosi risg i'r Gronfa. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi ymgynghori ar newidiadau i'r cylch prisio er nad oes unrhyw newidiadau i'r cylch teirblwydd wedi'u datblygu eto.

Bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn cadw'n effro i'r holl newidiadau arfaethedig. Fel arfer, bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn ymateb i ymgynghoriadau ar y materion yma lle maen nhw'n cael effaith ar y Gronfa, a gofyn i Actiwari'r Gronfa asesu'r effaith bosibl ar gostau'r newid. Byddai'n annog cyflogwyr, sydd yn aml â mwy o ddiddordeb, i ymateb yn annibynnol.

### **Risg cyflogwyr**

Mae'r risgiau yma'n codi oherwydd bod y rhestr o gyflogwyr yn newid o hyd. Mae cyflogwyr tymor byr a chyflogwyr sy'n terfynu, a'r posibilrwydd o ddiffyg mewn taliadau/neu cyfrifoldebau ariannol amddifad lle does dim modd i gyflogwyr fodloni cyfrifoldebau'r cynllun. Gall heriau gwariant y sector cyhoeddus a chwyddiant gael effaith andwyol ar gyllid cyflogwyr a'u gallu i wneud cyfraniadau.

Mae'r Awdurdod Gweinyddu yn monitro taliadau cyflogwyr ac yn disgwyl i gyflogwyr sydd mewn anhawster ariannol ymgysylltu â'r Gronfa, gan nodi y bydd modd adolygu cyfraniadau rhwng prisiau ffurfiol os yw'r amodau yn Rheoliad 64A a thelerau polisi'r Awdurdod Gweinyddu, fel y nodir yn Adran 6, yn cael eu bodloni.

Mae'r Awdurdod Gweinyddu yn cadw gwybodaeth am ei gyflogwyr, y sail dros eu cyfranogiad a'u statws cyfreithiol (er enghraifft, cyrff elusennol, cwmnïau cyfyngedig trwy warant, trefniadau grŵp/is-gwmni) ac yn defnyddio'r wybodaeth yma i lywio'r Datganiad Strategaeth Ariannu. Mae e hefyd wedi datblygu fframwaith ar gyfer dadansoddi'r risg sy'n cael ei hachosi gan gyflogwyr Haen 3 sydd fwyaf pwysig i'r Gronfa sy'n parhau i dderbyn aelodau newydd ac yn gweithredu targedau ariannu gwahanol, lle bo'n briodol, i leihau'r risg o gyflogwyr yn methu ac yn gadael y Gronfa gyda diffyg sylweddol o'i



gymharu â'r cyfrifoldebau ariannol wrth adael. Dye e ddim yn ystyried ei bod yn briodol (neu'n fforddiadwy i'r cyflogwyr dan sylw) ddileu'r risg o ddiffyg bodloni diffyg ariannol yn sgil ymadael a bydd yn gofyn i Actiwari'r Gronfa

i adolygu'r sefyllfa ariannu a lefel risg y cyflogwyr tymor byr a Haen 3 rhwng prisiadau teirblwydd lle mae'n credu bod hynny'n briodol. Maes o law bydd hefyd yn gofyn i Actiwari'r Gronfa adolygu sefyllfa ariannu unrhyw gyflogwyr gohiriedig yn rheolaidd rhwng prisiadau teirblwydd, gan nodi bod y Rheoliadau'n darparu'n benodol ar gyfer Cytundeb Gohirio Dyled i ddod i ben pan fydd yr Actiwari yn asesu bod y cyflogwr gohiriedig wedi talu digon o gyfraniadau eilaidd i gyflenwi ar gyfer y taliad ymadael a fyddai wedi bod yn ddyledus pe bai'r cyflogwr wedi dod yn gyflogwr sy'n ymadael ar y dyddiad cyfrifo (adolygu).

### **Risg Llywodraethu**

Mae hyn yn ymdrin â'r risg o newidiadau strwythurol annisgwyl o ran Aelodaeth y Gronfa (er enghraifft, cyflogwr sydd yn peidio â derbyn aelodau newydd neu grwpiau o staff yn ymddeol neu'n tynnu'n ôl ar raddfa fawr neu gwmni perchnogaeth lwyr yn cael ei sefydlu sydd ddim yn cymryd rhan yn y Gronfa, neu'n cymryd rhan yn rhannol), a'r risg gysylltiedig o'r Awdurdod Gweinyddu yn peidio â bod yn effro i newidiadau o'r fath mewn modd amserol.

Polisi'r Awdurdod Gweinyddu yw gofyn am gysylltiad rheolaidd rhyngddo fe'i hunan a'i gyflogwyr, a sicrhau adolygiadau rheolaidd o eitemau megis trefniadau bond, sefyllfa ariannol cyflogwyr sydd ddim yn codi trethi a'r lefelau ariannu. Bydd y Gronfa yn comisiynu adolygiadau teirblwydd o unrhyw fondiau yn rhan o'i mesurau rheoli risg. Mae enghreifftiau penodol wedi'u nodi isod:

#### Taliadau straen ymddeoliadau cynnar

Does dim ystyriaeth yn cael ei rhoi i werth ychwanegol y buddion pan fydd aelod yn colli ei swydd neu'n gadael ar sail effeithlondeb. I wneud iawn am y 'straen' (cost) bosibl sy'n dod i'r amlwg yn y prisiad nesaf, bydd gofyn am daliadau straen ymddeol yn gynnar gan y cyflogwr i'r Gronfa er mwyn wneud iawn am y gost ychwanegol yma dros gyfnod sydd ddim yn hwy na 3 blynedd.

#### Cyflogwyr sydd â nifer fach neu nifer sy'n gostwng o aelodau sy'n cyfrannu

Barn yr Awdurdod Gweinyddu yw na ellir gofyn am gyfraniadau gan gyflogwyr sydd heb aelodau sy'n cyfrannu o dan Reoliad 67 (heblaw bod Cytundeb Gohurio Dyled bellach ar waith). Mae risg y bydd y cyflogwr yn peidio â thalu cyfraniadau gyda diffyg yn y Gronfa, a methu â thalu'r taliad gadael o dan Reoliad 64.

Bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn monitro cyflogwyr sydd ag aelodaeth sy'n gostwng i sicrhau bod y cyllid yn agos at 100% ar y mesur solfedd erbyn i'r aelod diwethaf adael gwasanaeth a gall hyn effeithio ar y



strategaeth ariannu yn unol â hynny.



### Cyrff sy'n dod i'w terfyn gyda diffyg heb ei dalu

Gall rhai cyflogwyr beidio â bodoli a dod yn fethdalwyr gan adael y cyflogwyr yn y Gronfa yn agored i'r risg o ddiffyg heb ei dalu. I Gyrff Derbyniedig Trosglwyddedig a Chyrff Derbyniedig sydd wedi'u derbyn o dan Atodlen 2 Rhan 3 (1)(d), bydd unrhyw ddiffyg o'r fath yn cael ei dalu gan y Cyflogwr Cynllun perthnasol ac mae felly risg isel i gyflogwyr eraill yn y Gronfa (ar yr amod wrth gwrs bod y Cyflogwr Cynllun perthnasol yn un sydd â chyfamod dibynadwy).

Mae cyflogwyr eraill yn fwy problemus a bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn mynd ati i leihau'r risgiau pan fydd hyn yn ymarferol, drwy ddefnyddio trefniadau bond neu sicrhau bod gwarantwr i fod yn gefn i gyfrifoldebau ariannol y corff.

### **Risg cyfnod adfer**

Mae'r Awdurdod Gweinyddu yn cydnabod y bydd caniatáu gwargedau neu ddiffygion i'w dileu dros Gyfnod Adfer yn hytrach nag ar unwaith, yn cyflwyno risg y bydd y camau gweithredu i adfer solfedd yn annigonol rhwng mesuriadau olynol. Bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn trafod y risgiau cynhenid ym mhob sefyllfa gydag Actiwari'r Gronfa ac yn cyfyngu ar y Cyfnod Adfer lle mae hynny'n briodol. Mae manylion polisi'r Awdurdod Gweinyddu wedi'u nodi'n gynharach yn y Datganiad yma.

### **Risg camu**

Mae'r Awdurdod Gweinyddu yn cydnabod bod caniatáu cyflwyno newidiadau yn y gyfradd gyfrannu mewn camau blynyddol yn hytrach nag ar unwaith yn cyflwyno risg y bydd y camau gweithredu i adfer solfedd yn annigonol ym mlynnyddoedd cynnar y broses. Bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn trafod y risgiau cynhenid ym mhob sefyllfa gydag Actiwari'r Gronfa ac yn cyfyngu ar y nifer o gamau lle mae hynny'n briodol. Mae manylion polisi'r Awdurdod Gweinyddu wedi'u nodi'n gynharach yn y Datganiad yma.

---



## **ATODIAD 1**

### **Prisiad Actiwaraid ar 31 Mawrth 2022**

Mae'r tybiaethau a'r dull sydd wedi'u hamlinellu isod yn adlewyrchu'r tybiaethau sy'n briodol i'r prisiad teirblwydd ar 31 Mawrth 2022 yn seiliedig ar strategaeth y Gronfa sydd wedi'i hamlinellu uchod. Dydyn nhw ddim yn briodol at ddibenion cyfrifo cyflogwyr a gallan nhw gael eu mireinio ar gyfer prisiadau gadael fel sydd wedi'i nodi uchod yn adran berthnasol y Datganiad yma. Yn ogystal a hynny, bydd y tybiaethau ariannol yn cael eu diweddarau i adlewyrchu amodau marchnad sy'n briodol i ddyddiad unrhyw gyfrifiadau yn y dyfodol (er enghraifft, derbyniadau newydd, ymadawiadau, diweddariadau ariannu ac unrhyw adolygiad o gyfraniadau cyflogwyr cyn unrhyw i ddiweddariadau gael eu gwneud i'r strategaeth yn rhan o'r prisiad nesaf fel mae'r sefyllfa ar 31 Mawrth 2025).

### **Dull a thybiaethau sy'n cael eu defnyddio i gyfrifo'r targed ariannu**

Mae'r dull actiwaraid i'w ddefnyddio yw'r dull Rhagamcanu Unedau lle mae'r cynnydd cyflog sy'n cael ei dybio ar gyfer pob aelod yn cael ei ragamcanu hyd nes y tybir i'r aelod hwnnw adael gwasanaeth gweithredol oherwydd marw, ymddeol neu dynnu'n ôl o wasanaeth.

### **Prif dybiaethau Elw ar fuddsoddiad (cyfradd ddisgownt)**

Y gyfradd ddisgownt ar gyfer prisiad 2022 ar gyfer cyflogwyr sy'n ddarostyngedig i'r Targed Cyllido Corff Cofrestredig a Chyflwynedig yw 4.30% y flwyddyn, yn seiliedig ar Tebygolrwydd o Lwyddiant Ariannu o 77% a dyraniad asedau strategol hirdymor y Gronfa fel y nodir yn y fersiwn gyfredol o'r Datganiad Strategaeth Buddsoddi.

Ar gyfer cyflogwyr sy'n destun y Targed Cyllido Cyrff Amddifad Parhaus, y gyfradd ddisgownt yw 3.90% y flwyddyn yn y gwaith (sy'n cyfateb i'r gyfradd ddisgownt yn y gwaith ar gyfer cyrff cofrestredig diogel llai 0.4% y flwyddyn) a 1.3% y flwyddyn ar gyfer ymadael â gwasanaeth<sup>2</sup>.

Ar gyfer cyflogwyr sy'n destun y Targed Ariannu Canolradd y gyfradd ddisgownt yw 3.90% y flwyddyn yn y gwaith a 3.80% y flwyddyn ar gyfer ymadael y gwasanaeth.

I gyfrifoldebau ariannol sydd eisoes yn amddifad, y gyfradd ddisgownt yw 1.7% y flwyddyn (cyfwerth â chynnyrch giltiau llog sefydlog tymor hir ar y dyddiad prisio).

### **Chwyddiant – targedau ariannu parhaus**

Y rhagdybiaeth orau yn y tymor hir ar gyfer chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwr (CPI) ar y dyddiad prisio yw tybiaeth amcangyfrifol gorau hirdymor (30 mlynedd) yn seiliedig ar y Rhagdybiaethau Marchnad Cyfalaf a gynhyrchwyd gan Aon Solutions UK Limited.

### **Addasiad chwyddiant tymor byr**

Mae Rhagdybiaethau'r Farchnad Gyfalaf yn rhai sy'n edrych i'r dyfodol ac felly ystyriwch y rhagolygon o'r dyddiad prisio. Yn ymarferol, mae cynnydd mewn pensiwn ac adbrisio cyfrifon pensiwn yn seiliedig ar gynnydd Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) hyd at 30 Medi y flwyddyn flaenorol. Yn wyneb chwyddiant o 1 Hydref 2021 i 31 Mawrth 2022 sy'n sylweddol uwch na'r rhagdybiaeth amcangyfrifol hirdymor gorau, a phwysau chwyddiant tymor byr parhaus a fydd yn cynyddu'r cyfrifoldebau ariannol, ym mhrisiad 2022 bydd addasiad o 10% yn cael ei ychwanegu at y cyfrifoldebau ariannol i gyflogwyr sy'n ddarostyngedig i'r corff cofrestredig /

ymgyfraniad a'r targed cyllid canolradd. Bydd yr addasiad yma'n cael ei adolygu ar gyfer unrhyw ryngbrisiad

---

<sup>2</sup> Mae'r gyfradd ddisgownt ar gyfer ymadael â'r gwasanaeth wedi'i chyrraedd ar sail arenillion ar giltiau llog sefydlog hir-ddyddiedig ar y dyddiad prisio o 1.7% plws 0.2% y flwyddyn yng ngoleuni disgwyliadau'r farchnad o'r cynnydd posibl yn y dyfodol mewn arenillion giltiau, llai 0.6% i adlewyrchu'n rhannol Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) a awgrymir gan y farchnad yn uwch na'r amcangyfrif cyfrifon gorau hirdymor o 2.3%

i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn briodol yng ngoleuni amodau'r farchnad ar y pryd.

### **Chwyddiant – prisiad ymadael (giltiau)**

Cymerir mai'r rhagdybiaeth chwyddiant mynegai prisiau manwerthu (RPI) yw'r chwyddiant RPI mantoli'r gyllideb a awgrymir gan y farchnad sy'n deillio o'r gwahaniaeth rhwng yr arenillion ar log sefydlog hir-ddyddiedig a bondiau mynegrifol Llywodraeth y DU.

Tybir mai chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) yw chwyddiant Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) tynnu 1.0% y flwyddyn dros y cyfnod hyd at 2030 a chwyddiant RPI (Mynegai Prisiau Defnyddwyr gan gynnwys Costau Perchennog Preswyl) tynnu 0.1% y flwyddyn o 2023. Mae hyn yn rhoi rhagdybiaeth o 3.4% y flwyddyn ar 31 Mawrth 2022.

### **Cynnydd mewn cyflogau**

Bydd y rhagdybiaeth ar gyfer cynnydd mewn cyflogau (cynnydd sy'n uwch na chwyddiant prisiau defnyddwyr) yn cael ei gosod fel 1.25% y flwyddyn uwchlaw'r rhagdybiaeth amcangyfrif gorau hirdymor y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) fel y disgrifir uchod.

### **Cynnydd mewn pensiwn ac adbrisio cyfrifon pensiwn**

Tybir bod cynnydd i bensiynau mewn taliadau'n unol â'r dybiaeth chwyddiant (Mynegai Prisiau Defnyddwyr) fel sydd wedi'i bennu uchod. Mae hyn yn cael ei newid yn briodol i adlewyrchu unrhyw fuddion, sydd ddim wedi'u mynegeo'n llawn yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) (er enghraifft, Isafswm Gwarantedig Pensiynau mewn perthynas â gwasanaeth cyn Ebrill 1997, heblaw am y rheiny sy'n cyrraedd Oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar ôl 6 Ebrill 2016).

Tybir bod cynnydd i bensiynau mewn gohuriaid (heblaw Isafswm Gwarantedig Pensiynau) ac adbrisio cyfrifon pensiwn yn unol â'r dybiaeth chwyddiant (Mynegai Prisiau Defnyddwyr) fel sydd wedi'i bennu uchod.

### **McCloud**

At ddibenion prisiad 2022, bydd lwfans penodol i gyflogwr bras yn cael ei wneud mewn perthynas â rhwymedi McCloud yn seiliedig ar ddadansoddiad lefel uchel o aelodaeth cronfa pob cyflogwr.

Bydd buddion aelodau'n cael eu prasio yn ôl y gofyn gan ddeddfwriaeth berthnasol fel sydd mewn grym ar 31 Mawrth 2022, ac eithrio'r tybiaethau canlynol:

- i. Cymerir yn ganiataol y bydd y sylfaen gyfredol (sydd ond yn berthnasol i'r aelodau hynny o fewn 10 mlynedd i'w Oedran Pensiwn Arferol ar 31 Mawrth 2012) yn cael ei hadolygu ac yn berthnasol i bob aelod a oedd yn weithredol yn y cynllun ar 31 Mawrth 2012, neu cyn hynny, ac sy'n ymuno â Chynllun 2014 heb fwch yn eu gwasanaeth sy'n golygu eu bod nhw'n anghymwys.
- ii. Bydd y cyfnod gwarchod yn berthnasol o 1 Ebrill 2014 i 31 Mawrth 2022 ond bydd yn dod i ben pan fydd aelod yn gadael gwasanaeth gweithredol neu'n cyrraedd oedran ymddeol arferol ei gynllun cyflog terfynol (pa un bynnag sydd gyntaf).
- iii. Pan fydd aelod yn parhau mewn gwasanaeth gweithredol y tu hwnt i 31 Mawrth 2022, bydd y gymhariaeth o'i fuddion yn seiliedig ar ei gyflog terfynol pan fydd yn gadael y CPLIL neu pan fydd yn cyrraedd oedran



ymddeol arferol ei gynllun cyflog terfynol (pa un bynnag sydd gyntaf).

- iv. Bydd gwarchodaeth sylfaenol yn berthnasol i aelodau cymwys sy'n gadael aelodaeth weithredol o'r CPLIL gyda hawl uniongyrchol neu ohiriedig i bensiwn.
- v. Bydd y gwarchodaeth sylfaenol yn ystyried pryd mae aelodau'n cymryd eu buddion, fel bod modd iddyn nhw



gael sicrwydd eu bod yn cael y budd-dal uwch.

Bydd y lwfans ar gyfer unrhyw gyfrifoldebau ariannol ychwanegol o ganlyniad i weithredu'r McCloud yn y CPLIL yn cael ei adolygu o bryd i'w gilydd a bydd modd ei ddiwygio ar gyfer unrhyw gyfrifiadau rhwng prisiadau lle mae data wedi'i ddiweddarau ar gael ar gyfer cyflogwr a/neu mae manylion terfynol y newidiadau rheoleiddiol yn hysbys. Bydd unrhyw ddull diwygiedig yn cael ei benderfynu yn seiliedig ar gyngor Actiwari'r Gronfa.

